# GWASANAETHAU CYMDEITHASOL: BETH YDYM YN EI WNEUD A'R GWAHANIAETH MAE'N EI WNEUD

**Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Wrecsam**

**2017-18**

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

# CYNNWYS


03 *Adran 1:* **Cyflwyniad**

04 *Adran 2:* **Crynodeb o berfformiad**

05 *Adran 3:* **Beth mae pobl yn ei ddweud wrthym am ein gwasanaethau**

07 *Adran 4:* **Gwella llesiant (y chwe safon)**

- Safon 1: Helpu pobl I gyflawni'r deilliannau llesiant y meant ye eu dymuno
- Safon 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid er mwyn diogelu a hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol
- Safon 3: Diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed
- Safon 4: Helpu pobl I ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas
- Safon 5: Helpu pobl I gynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach
- Safon 6: Helpu pobl I gyflawni gwell llesiant economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

46 *Adran 5:* **Sut ydym yn darparu ar gyfer ein dinasyddion**

- A. Datblygu ein gweithlu
- B. Cyllid a chynllunio ar gyfer y dyfodo
- C. Arweiniad, arweinyddiaeth ac atebolrwydd gwleidyddol

50 *Adran 6:* **Mwy o Wybodaeth**

52 *Adran 7:* **Fframwaith Mesur Perfformiad**

55 *Adran 8:* **Atodiadau**

# 1. CYFLWYNIAD

*At the end of each financial year, every council in Wales must publish a report about its social services. This is our report.*

Mae'r adroddiad hwn yn gwneud yn union beth mae'n  ei ddweud. Mae'n edrych am beth ydym yn ei wneud...a'r gwahaniaeth mae'n ei wneud.

Mae hynny'n bwysig iawn oherwydd bod y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau cymdeithasol yn effeithio'n fawr iawn ar fywydau pobl.

A gyda llai o adnoddau a mwy a mwy o bobl angen ein help, mae'r heriau yr ydym yn eu hwynebu yn fwy nag erioed.

Er mwyn wynebu'r heriau hynny, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid - ac yn meddwl yn wahanol am sut yr ydym yn gwneud pethau.

Mae'r adroddiad hefyd yn egluro ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod - yn seiliedig ar beth mae pobl yn ddweud wrthym sydd ei angen arnynt - a byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau eraill, teuluoedd ac unigolion er mwyn hyrwyddo llesiant yn Wrecsam.

Mae'r holl waith yma wedi ei danategu gan *Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) (2014), a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.*

Rydym wedi gwneud pob ymdrech i gyflawni ein cyfrifoldebau o dan y deddfau hyn, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Ond yn bwysicach, ni fyddai dim o hynny yn digwydd oni bai am ein staff gofal cymdeithasol ymroddedig, y bobl niferus sy'n gweithio i ddarparwyr annibynnol a darparwyr y trydydd sector ar draws Wrecsam a gwaith gwirfoddolwyr a gofalwyr.

Maent yn arwyr tawel sy'n gweithio mor galed i wella bywydau pobl.

Nhw yw'r rheswm ein bod yn gallu gwneud gwahaniaeth.



**Charlotte Walton**

Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a
Chyfarwyddwr Interim Gwasanaethau Cymdeithasol.

# 2. CRYNODEB O BERFFORMIAD

## *Cefndir*

Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru gyhoeddi adroddiad am ei wasanaethau cymdeithasol. Hwn yw ein hadroddiad ni.

Y nod yw gwerthuso pa mor dda y darparwyr ein gwasanaethau, ac amlygu unrhyw welliannau sydd eu hangen.

Mae hefyd yn gyfle i egluro sut ydym am helpu pobl yn ystod y flwyddyn sydd i ddod - pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen ein cymorth ni. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi ein cynlluniau i weithio gydag unigolion a chymunedau i helpu i atal neu arafu'r gyfradd y mae ar bobl angen ein gwasanaethau, trwy wella annibyniaeth a iechyd a lles a thrwy gefnogi datblygu cymunedau cryf a gwydn.

Wrth i chi ddarllen y tudalennau yma, byddwch yn sylwi ein bod yn cyfeirio at chwe 'safon ansawdd'. Mae'r rhain yn rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) (a byddwn yn cyfeirio ati fel y Ddeddf o hyn ymlaen).

Mae fformat yr adroddiad hwn yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf, a'r angen i fesur perfformiad gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'r chwe safon yma.

Mae hefyd yn bwydo i mewn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n amcanu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru - helpu i greu gwlad y mae pob un ohonom eisiau byw ynddi. Nawr ac yn y dyfodol.

Yn olaf, byddwch yn sylwi ein bod yn cyfeirio at 'ddeilliannau' yn aml. Mae hynny'n wir oherwydd bod llawer o'n gwaith yn canolbwyntio ar helpu pobl gyflawni'r canlyniadau terfynol y maent eisiau eu cyflawni.

# 3. BETH MAE POBL YN EI DDWEUD WRTHYM AM EIN GWASANAETHAU

*Mae ein arolwg Ansawdd Bywyd a anfonir yn flynyddol i dros 1000 o bobl yn fesuriad pwysig o'r gwahaniaeth mae ein gwasanaethau yn ei greu*

Eleni gwelsom gynnydd yn nifer y Bobl Hŷn oed yn teimlo bod ein gwasanaethau wedi helpu i wella eu hansawdd bywyd, 95% (90% y llynedd), ac a nododd bod eu hansawdd bywyd yn dda iawn/da 57% (53% y llynedd). O'r arolwg hwn rydym yn gwybod bod gennym waith i'w wneud o hyd er mwyn atal ynysu cymdeithasol, gan fod dim ond 48% o bobl wedi nodi eu bod yn cael cymaint o gyswllt ag y maent yn ei ddymuno â'r bobl maent yn eu hoffi.

Rydym hefyd yn cynnal arolwg blynyddol o ofalwyr, a anfonwyd i dros 600 o oedolion sy'n ofalwyr cofrestredig eleni.

Mae'r canlyniadau wedi eu cyhoeddi ar wefan *Eich Llais Wrecsam* (gweler adran 6 am y ddolen) a bydd yn ein helpu i siapio'n hyn yr ydym yn ei wneud.

Bu i ni hefyd anfon arolygon Llywodraeth Cymru newydd i oedolion a Gofalwyr. Rydym wedi anfon y data i Lywodraeth Cymru a byddwn yn gweithredu ar unrhyw fewnwelediad mae'n ei roi.

Wrth ddatblygu ein Strategaeth Gomisiynu Adrannol rydym hefyd wedi cynnal ystod eang o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu.

Yn achos pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'u gofalwyr, gosodwyd holiaduron iechyd a llesiant ar 'Eich Llais' ac fe'u postiwyd i bobl. Defnyddiwyd holiaduron hefyd i gasglu safbwyntiau a dyheadau pobl sydd heb gael mynediad i wasanaethau gofal cymdeithasol eto, ond allai wneud hynny yn y dyfodol.

Aethom allan i'r gymuned i siarad â phobl, a'u holi am eu blaenoriaethau iechyd a llesiant, a chynnal sesiynau ymgysylltu gyda'n staff ein hunain a darparwyr annibynnol a darparwyr y trydydd sector er mwyn deall eu safbwyntiau ynghylch beth ydym yn ei wneud. Mae hynny yn rhoi darlun cyfoethog i ni o beth mae pobl yn ei feddwl am ein gwasanaethau a beth maent eisiau ei weld yn y dyfodol.

Pan fyddwn yn derbyn cwynion, bydd uwch reolwyr yn derbyn copi er mwyn helpu i adnabod problemau neu themâu.

A phob blwyddyn, bydd adolygiad o ganmoliaethau a chwynion yn cael i ystyried gan gynghorwyr ar ein Pwyllgor Craffu.

Felly mae canmoliaethau a chwynion yn darparu adborth defnyddiol.

Mae mwy o wybodaeth am adborth ar ein gwasanaethau i'w chael yn Atodiad B ar diwedd yr adroddiad hwn.

## Dyma enghraifft o sut ydym yn gweithredu ar yr hyn mae pobl yn ei ddweud wrthym

Mae adborth a dderbyniwyd gan bobl sy'n byw â dementia a'u teuluoedd/gofalwyr wedi amlygu pwysigrwydd datblygu Hyrwyddwyr Dementia, ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Alzheimer er mwyn cynyddu nifer yr Hyrwyddwyr Dementia a Chyfeillion Dementia yn y cyngor drwyddo draw ac ar draws Wrecsam. Eleni roedd hyn yn brif ffocws ein gweithgareddau yn ystod yr wythnos Diogelu Cenedlaethol.

Mae taclo 'unigrwydd ac arwahanrwydd' ymysg pobl hŷn wedi cael ei glustnodi fel blaenoriaeth ar gyfer y Bwrdd Cyflawni Partneriaeth (gweler 'gweithio mewn Partneriaeth' yn adran 5) ac mae hynny yn helpu i siapio rôl yr Asiantau Cymunedol a chynlluniau rhagnodi cymdeithasol. Byddwn yn trafod mwy am hynny yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

# 4. GWELLA LLESIANT
## (Y Chwe Safon)

*Dyma'r chwe safon y cyfeiriwyd atynt yn gynharach.Mae yna lawer o wybodaeth yma, felly rydym wedi eu rhannu yn ddwy adran - gofal cymdeithasol i oedolion a gofal cymdeithasol i blant.*

## SAFON 1:

### Helpu pobl i gyflawni'r deilliannau llesiant y maent yn eu dymuno

Mae hyn yn swnio'n gymhleth, ond mae'n syml mewn gwirionedd. Rydym yn sôn am helpu pobl wella eu sefyllfa mewn ffordd sy'n ystyried sut maent yn teimlo, a beth maent eisiau.

## GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION

### Dyma beth ydym wedi ei ddweud y byddwn yn ei wneud

- Gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth er mwyn cyd gynhyrchu cynlluniau cymorth sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau (mewn geiriau eraill, cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau terfynol y maent eisiau eu gweld) - creu gwasanaeth mwy cynaliadwy ac sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.
- Parhau i ddatblygu ein gwasanaethau Iaith Gymraeg er mwyn bodloni Safonau'r Iaith Gymraeg

### Dyma beth wnaethom

Bu i ni ddweud ar ddechrau'r adroddiad yma bod yr heriau yr ydym yn eu hwynebu yn fwy nag erioed. Mae gennym lai o adnoddau, ond mae mwy o bobl angen ein cymorth.

Felly rydym yn ceisio newid y ffordd yr ydym yn gweithio, er mwyn bod yn fwy effeithlon a gweithio'n ddoethach. Mae hyn yn cynnwys y ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n partneriaid yn y Trydydd Sector, sy'n allweddol i'n galluogi i ddatblygu gwasanaethau o ansawdd yn y gymuned sy'n ein helpu i reoli'r galw ac i atal neu leihau'r angen i gynyddu.

Ond yn bennaf, rydym yn gweithio'n galed er mwyn gwella deilliannau pobl drwy ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau a ffyrdd o weithio sy'n hyrwyddo annibyniaeth a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol.

Mae ein hymdrechion wedi cael eu canolbwyntio ar dri prif faes: sut ydym yn gweithio; yr arfau yr ydym yn eu defnyddio; a gwella deilliannau pobl yr ydym yn eu cynorthwyo.

## Sut Ydym yn Gweithio

***Bod yn lleol***

Rydym wedi peilota 'gweithio'n lleol' yn llwyddiannus.

Rydym wedi lleoli gweithwyr cymdeithasol o'r Tîm Pobl Hŷn gyda gweithwyr iechyd proffesiynol yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac ysbytai cymunedol Y Waun.

A rydym wedi gwneud yr un modd yn hybiau nyrsio Pen-y-Maes, Plas Madog a Pharc Caia.

Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol, gyda llawer o gydweithio effeithiol. Ond beth oedd y buddion?

> Mae gweithio'n agos â gweithwyr iechyd proffesiynol ar y safle yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau yn gyflym. Yn ddiogel ac effeithiol pan maent yn barod i adael yr ysbyty.

Mae hynny hefyd yn helpu gweithwyr cymdeithasol, nyrsys ardal a meddygon teulu i weithio gyda'i gilydd er mwyn helpu i bobl hŷn aros yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain os ydynt yn dymuno hynny - yn hytrach na chael eu derbyn i ysbytai yn ddiangen.

Rydym yn gobeithio y bydd y gwaith yn cael ei ymestyn i Ffordd Grove yn Wrecsam, Overton-on-Dee, Gresffordd a Llai.

### Gwella taith y cwsmer

Rydym yn adolygu'r ffordd y mae cwsmeriaid yn llifo drwy'r adran, oherwydd mae profiad didrafferth yn well i'r cwsmer - ac i ni.

Rydym eisiau cael gwared â dyblygu, fel nad yw pobl yn gorfod ailadrodd eu stori wrth iddynt symud drwy'r adran ac yn ymgysylltu â gwahanol dimau.

> Rydym eisiau i'r cwsmer weld y person priodol ar yr adeg briodol ac yn y man priodol

## Un pwynt mynediad

Mae helpu pobl i gael mynediad i amrywiol wasanaethau cymdeithasol ac iechyd mewn un man yn rhywbeth y byddem wrth ein bodd yn ei wneud.

Ond mae datblygu Un Pwynt Mynediad Integredig (SPoA) gyda'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn her.

Er hynny, rydym wedi gwella ein SPoA Gofal Cymdeithasol i Oedolion ein hunain, gan greu gwasanaeth *Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth* cryfach.

Mae Diogelu a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DOLS) wedi cael eu symud i dîm penodol.

Mae hynny wedi cryfhau ein galluedd diogelu, ac mae hefyd wedi galluogi i SPoA ganolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth a chyngor prydon i bobl.

Penodwyd rheolwyr tîm, mae gweithwyr cymdeithasol wedi eu penodi, ac rydym wedi datblygu rolau *Ymgynghorydd Cyswllt Cyntaf ac Aseswr Gofal Cymdeithasol.*

## Rolau allweddol

Oherwydd bod y ffordd yr ydym yn gweithio yn newid, mae ein swyddogion cefnogi busnes angen gwahanol sgiliau. Bu i ni gyflwyno rôl *Ymgynghorydd Cyswllt Cyntaf* i'n timau ym mis Ionawr 2018 er mwyn ein helpu i weithredu dulliau newydd o ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, a'n helpu i reoli galw yn well.

Rydym hefyd wedi datblygu'r rôl Aseswr Gofal Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod gan bobl fynediad i'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth priodol er mwyn parhau i fod mor annibynnol â phosibl a chael mynediad prydlon i wasanaethau cymunedol, offer ac addasiadau i'r cartref pan fo'u hangen.

## Ffordd newydd o rannu data

Rydym wedi bod yn gweithio ar baratoi ar gyfer System Wybodaeth Gofal Cymdeithasol Cymru (WCCIS). Mae hon yn system reoli achosion electronig genedlaethol, er mwyn helpu i reoli cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'n waith sylweddol. Rydym wedi bod yn profi'r system yn ofalus, gan symud data o'n hen systemau, gweithio â'r Bwrdd Iechyd er mwyn diweddaru sut yr ydym yn rhannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwaith mwy integredig er lles dinasyddion Wrecsam, a datblygu ein hyfforddiant a'n cymorth i weithwyr rheng flaen a rheolwyr fel y gallwn wneud y mwyaf o fuddion y system newydd. Rydym yn amcanu i WCCIS fynd yn fyw ym mis Hydref 2018.

## Gwefan Dewis Cymru

Rydym yn parhau i weithio â phartneriaid ar draws Gogledd Cymru er mwyn datblygu gwybodaeth gyhoeddus ar wefan Dewis Cymru (www.dewis.wales)

Mae'r wefan yn safle gwybodaeth gyhoeddus sy'n darparu cyngor a chymorth ar faterion llesiant - o iechyd i fywyd teuluol.

## Strategaethau comisiynu

Comisiynu yw'r broses y mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn ei ddefnyddio i asesu anghenion ardal a sut i ddiwallu'r anghenion hynny. Cynhyrchir Strategaeth Gomisiynu gan yr Adran bob 5 mlynedd, ac mae newydd ei hadnewyddu i nodi ein gweledigaeth dros y 5 mlynedd nesaf.

Maent yn seiliedig ar ymgynghori â darparwyr, pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, gofalwyr a'r cyhoedd yn ehangach - er mwyn ein helpu i ddeall beth sy'n bwysig i bobl Wrecsam.

## Yr arfau yr ydym yn eu defnyddio

Mae'r *Ddeddf* yn fater o bwys, ac mae ein holl staff wedi derbyn hyfforddiant er mwyn paratoi ar ei chyfer.

Rydym hefyd wedi cynnig hyfforddiant i ddarparwyr gwasanaethau eraill a sefydliadau'r trydydd sector.

Cafodd dogfennaeth Asesu Integredig ei beilota'n llwyddiannus gan y Gwasanaeth Anabledd, ac erbyn hyn mae'n cael ei gyflwyno i'r holl dimau.

Mae'n gosod 'beth sy'n bwysig' i'r unigolyn - o ran y deiliannau maent eisiau eu cyflawni - yng nghanol ein cynlluniau gofal a chymorth.

Y nod yw canolbwyntio ar y galluoedd ac asedau sydd gan bobl er mwyn cyflawni eu deilliannau personol a lleihau'r angen am wasanaethau statudol. Mae hynny wrth galon y Ddeddf ac mae'n sicrhau ein bod yn gweithio â phobl fel unigolion ac yn eu helpu i gyflawni datrysiadau unigol creadigol sydd yn bodloni eu hanghenion orau.

## Gwella deilliannau pobl yr ydym yn eu cynorthwyo

### Helpu pobl anabl i barhau i fod yn actif ac annibynnol

Mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud er mwyn gwella deilliannau pobl yr ydym yn eu cynorthwyo yn ogystal â lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol neu a gomisiynir.

> Wynebu'r gwirionedd. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr rhoi rhywbeth i bobl nad ydynt ei angen neu ei eisiau

Yn ogystal â pheilota'r Asesiad Integredig, mae'r Tîm Anabledd wedi gwneud llawer o waith er mwyn darparu teleofal, cymhorthion, addasiadau a chymorth arall i bobl ag anableddau - gwella eu hansawdd bywyd a'u hannibyniaeth.

Defnyddiwyd arian Cronfa Gofal Integredig (ICF) er mwyn sefydlu Gwasanaeth Dilyniant er mwyn helpu darparwyr Byw Gyda Chymorth gyflawni cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio gyda dau gartref gofal preswyl ar gyfer pobl hŷn, gan helpu staff

i ddarparu gweithgareddau pwrpasol i breswylwyr...yn seiliedig ar beth sy'n bwysig iddyn nhw.

Erbyn hyn mae arian Grantiau Byw'n annibynnol Cymru (WILG) yn mynd yn uniongyrchol i gyn-ghorau lleol, yn hytrach na chael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru.

Oherwydd hynny, rydym yn adolygu pob cynllun gofal a chymorth ar gyfer derbynwyr WILG er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r deilliannau y maent yn eu dymuno.

Rydym wedi dechrau adolygu'r gwasanaethau sydd ar gael drwy ein llety byw gyda chymorth - yn cynnwys 'cwmni cysgu' (pan fo gweithwyr cymorth yn cysgu dros nos gyda'r preswyliwr).

## Astudiaeth achos – Kerris a Myfanwy

Rydym wedi bod yn ffodus o allu gweithio â chwiorydd sy'n efeilliaid, Kerris a Myfanwy, sy'n byw mewn Tŷ Byw gyda Chymorth, ble'r oeddent ar y cychwyn yn derbyn cymorth 24 awr yn cynnwys cwmni cysgu.

Bu asesiadau ddangos y byddent yn elwa o waith galluogi - a gwnaethpwyd hynny yn llwyddiannus drwy weithio'n agos gyda'r merched, eu darparwr cymorth a'u hewythr (prif gyswllt y teulu). Cyflwynwyd technoleg gynorthwyol, a daeth y merched i fod yn fedrus iawn wrth ei defnyddio. Bu iddynt gytuno i ni hefyd osod system Cadw Llygaid, oedd yn ein caniatáu i fonitro a oeddent yn codi neu grwydro yn ystod y nos.

Ar ôl peth amser, bu i ni ofyn iddynt sut oeddent yn teimlo am leihau'r cymorth yr oeddent yn ei dderbyn yn ystod y dydd. Roeddent yn teimlo y gellid eu gadael am gyfnodau byrion heb gymorth yn eu cartref eu hunain, gan ddefnyddio offer teleofal wrth gefn. Gweithiodd hynny yn dda. Daeth Kerris a Myfanwy yn gynyddol hyderus ac roeddem yn teimlo ei bod yn amser trafod lleihau neu roi'r gorau i ddefnyddio cwmni cysgu. Roedd y ddwy eisiau "rhoi cynnig arni". Roedd y system Cadw Llygaid yn ein galluogi i ganfod ble'r oeddent yn y tŷ, ac yn ein helpu i fapio eu symudiadau yn ystod y nos.

Bu i'r darparwr ddatblygu amserlen er mwyn lleihau'r cymorth yn raddol dros gyfnod o dri mis. Roedd eu hewythr yn gefnogol i hynny - fel eu heiriolwr - ac fe eglurodd bopeth i'r merched. Erbyn hyn maent yn teimlo'n hyderus ac yn ddiogel yn eu cartref. Maent yn dal i dderbyn ychydig o gymorth yn ystod y dydd, ond mae ganddynt gydbwysedd da o annibyniaeth a chymorth. Os gofynnwch iddynt sut maent yn teimlo, byddent yn cymryd eiliad i feddwl....yn edrych ar ei gilydd...ac yn dweud: "Rydym yn gwneud yn dda....ydyn, rydym yn gwneud yn dda onid ydyn."

## Gwella cyfleoedd seibiant

Mae Park View yn wasanaeth gwyliau byr mewnol ar gyfer pobl sydd ag anableddau corfforol neu anableddau dysgu, neu man ar y synhwyrau.

Mae'n darparu gwyliau byr wedi eu cynllunio a rhai brys mewn eiddo wedi ei addasu ond sydd eto yn gartrefol, ble'r ydym yn helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol.

Mae arian Cronfa Gofal integredig wedi cael ei sicrhau er mwyn ymestyn yr eiddo a chreu gofod newydd, fydd yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo pobl awtistig a sydd ag ymddygiadau heriol, yn ogystal â phobl ag anghenion cymhleth sy'n deillio o ddementia (yn cynnwys dementia cynnar ymysg yr ifanc).

## Gofal Preswyl

Rhoddir gofal preswyl i bobl sy'n byw yn eu cartrefi, ond sydd angen help gyda thasgau gofal personol neu bethau eraill sy'n eu helpu i gynnal eu hannibyniaeth.

Mae cael mynediad i ddigon o gapasiti gofal preswyl wedi bod yn her i ni. Mae'r sefyllfa yr un fath ar draws Cymru.

Mae staff Gofal Preswyl yn darparu gwasanaeth allweddol, ond mae recriwtio a chadw pobl yn y swyddi yma yn gallu bod yn anodd. Er mwyn cefnogi hynny bu i ni gynyddu ffioedd yr ydym yn eu talu i ddarparwyr gofal preswyl yn sylweddol er mwyn eu helpu i wella telerau ac amodau staff, ac rydym yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chymorth sylweddol i staff gofal preswyl.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'n darparwyr er mwyn edrych ar y gwasanaethu maent yn eu darparu. Bu i ni gynnal adolygiad llawn o'r holl alwadau a barodd 15 munud yn unig i weld a allem fodloni anghenion pobl yn wahanol, er enghraifft drwy ddefnyddio teleofal. Bu i ni hefyd gynyddu amseroedd galwadau i rai pobl er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu bodloni'n briodol a gydag urddas.

Bu i ni ganfod bod y rhan fwyaf o'r galwadau 15 munud ar gyfer cynorthwyo pobl gyda'u meddyginiaethau, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda ni i wel sut y gall pobl reoli eu meddyginiaeth yn well heb fod angen galwad gofal preswyl.

## Asiantau Cymunedol

Mae Asiantau Cymunedol yn parhau i ddarparu gwybodaeth a chyngor gwerthfawr i bobl hŷn - yn ogystal â datblygu mentrau fel ymateb i anghenion lleol.

Darllenwch yr astudiaethau achos yma...

## Astudiaethau Achos Asiantau Cymunedol

Yn dilyn atgyfeirio gan weithiwr cymdeithasol, dechreuodd un o'n Asiantau Cymunedol gynorthwyo gŵr oedd yn gwella ar ôl camddefnyddio sylweddau. Yn ogystal â dibyniaeth ar alcohol, mae ganddo nifer o broblemau iechyd ac nid yw'n mynd allan yn aml.

Mae'n annhebygol y bydd fyth yn gallu gweithio eto. Ac mae'r ffaith i'w briodas chwalu ac iddo golli ei fusnes a'i gartref yn golygu ei fod ar brydiau yn dioddef ag iselder a'i fod yn chwerw a rhwystredig. Bu i hynny arwain at anghydfodau â chymdogion pan alwyd ar yr heddlu, ac nid oedd bob amser yn cydweithredu â gwasanaethau eraill allai ei helpu.

Felly dechreuodd yr Asiant Cymunedol ymweld ag ef bob wythnos. Rhoddwyd rhywun iddo siarad ag ef, oedd yn helpu i leddfu ei ddiflastod a'i unigrwydd. Roeddent hefyd yn ei annog i ymgysylltu â gwasanaethau eraill, ac yn mynd ag ef allan i gaffis lleol, parciau gwledig a siopau - gan ei helpu i adfer ei hyder.

Erbyn hyn mae'n ymwneud â grŵp cymorth arbenigol ac - ar ôl gweld ein Tîm Camddefnyddio Sylweddau - mae ar eu rhestr aros i gael cymorth. Mae ef hefyd wedi cael ei ryddhau gan yr Adran Allgleifion Iechyd Meddwl.

Mae'n llawer mwy optimistig erbyn hyn. Mae'n gobeithio gwneud ychydig o waith gwirfoddol ac mae eisiau bwcio gwyliau ar fws eleni - sy'n gam mawr ymlaen o fethu â gadael y tŷ. Mae'r anghydfodau gyda'r cymdogion wedi dod i ben. Mae hefyd wedi sicrhau tenantiaeth tŷ cyngor parhaol ac mae'n edrych mlaen at gael ailaddurno ei gartref. Mae hefyd yn cael ei dderbyn i'r ysbyty y llai aml - mae'n debyg oherwydd ei fod yn yfed llai ac yn cymryd mwy o ofal ohono ei hun.

Bydd yr Asiant Cymunedol yn parhau i ymweld ag ef am yr ychydig fisoedd nesaf, gan leihau amledd y galwadau yn raddol.

Ac yn ogystal â'i helpu, mae hi wedi helpu i wneud bywyd ychydig yn well i'w gymdogion.

## Cynllun Grantiau Cynhwysiant Cymunedol

Rydym yn parhau i ddarparu cyllid hadu drwy ein Cynllun Grantiau Cynhwysiant Cymunedol.

Gall sefydliadau bach a grwpiau cymunedol wneud cais am grantiau o hyd at £2,500 er mwyn helpu i sefydlu clybiau cinio a gweithgareddau cymdeithasol sy'n helpu pobl hŷn i deimlo'n fwy o ran o'u cymuned.

Sefydlwyd dau ar bymtheg o grwpiau gydag arian grantiau yn 2017/18, yn cynnwys clybiau cinio, yoga cadair, a clwb ffilmiau a grwpiau celf.

## Heneiddio'n Dda yn Wrecsam

Fel rhan o gynllun Heneiddio'n Dda yn Wrecsam, mae Gwasanaeth Codymu newydd wedi cae ei ariannu drwy'r Gronfa Gofal Integredig. Mae 125 o bobl wedi derbyn asesiad codymu arbenigol eleni, ac maent wedi derbyn gwybodaeth a chyngor ynghylch sut mae atal mwy o godymu.

## Yr Iaith Gymraeg

Er mwyn ein helpu i fodloni Safonau'r iaith Gymraeg, rydym wedi sicrhau bod ein holl daflenni cyhoeddus a thudalennau gwe ar gael mewn Cymraeg a Saesneg.

Rydym hefyd wedi cynnal arolwg er mwyn casglu gwybodaeth gwaelodlin am nifer y staff Cymraeg yn yr adran.

Ad er mwyn gwella recriwtio siaradwyr Cymraeg, mae pob swydd a hysbysebir yn allanol yn cael eu hysbysebu fel swyddi sydd â "Chymraeg yn hanfodol" y tro cyntaf.

## Dyma beth ydym eisiau ei wneud yn 2018-19

- Gweithio gyda darparwyr i gynnig gofal preswyl sy'n gweddu â'r deilliannau y mae pobl eisiau eu cyflawni, yn hytrach nag yn unol ag amseroedd a thasgau caeth.

- Gweithio gyda chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd ar ddatblygu manylebau gwasanaeth clir ar gyfer cartrefi preswyl a nyrsio - gan nodi'n glir y deilliannau sydd i'w cyflawni i breswylwyr, yn seiliedig ar beth sy'n bwysig iddyn nhw.
- Gyda chyhoeddi cynllun lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam (Mai 2018), bydd "Bwrdd Partneriaeth Iechyd Da" yn edrych ar faterion o unigrwydd ac arwahaniad a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ar y mater hwn.
- Parhau i weithredu Un pwynt mynediad (SPoA) iechyd a gofal cymdeithasol integredig - symud y tîm Therapi Galwedigaethol i fod yn rhan o SPoA, a gwella'r llif tuag at Ailalluogi.

- Adolygu sut yr ydym yn defnyddio Cymorth Gwaith Prosiect er mwyn datblygu model gwasanaeth clir ac opsiynau comisiynu i'r dyfodol. Bydd hynny yn helpu i ryddhau capasiti gofal preswyl.
- Parhau i helpu pobl mewn lleoliadau y tu allan i'r sir ddod yn ôl i Wrecsam, a chynyddu'r defnydd o fyw gyda chymorth fel dewis amgen.
- Parhau i adolygu'r ystod o opsiynau cymorth i bobl ag anabledd - yn cynnwys teleofal, cymhorthion ac addasiadau - er mwyn cynyddu annibyniaeth a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau a gomisiynir.
- Parhau i hyfforddi a datblygu ar gyfer rolau Ymgynghorwyr Cyswllt Cyntaf ac Aseswyr Gofal Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod yr holl dimau yn elwa o'r buddion llawn.
- Datblygu gwasanaethau yn Park View i bobl ag awtistiaeth a dementia.

# GOFAL CYMDEITHASOL I BLANT

## Dyma beth ydym wedi ei ddweud y byddwn yn ei wneud

- Parhau i ddatblygu gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol, tra'n ymgorffori elfennau o arferion da cenedlaethol.
- Rheoli'r prosiect o gyflwyno'r system reoli achosion electronig genedlaethol newydd (WCCIS) hyd at ei weithredu'n llawn.
- Ymgorffori a gwreiddio cynlluniau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau sy'n ein galluogi i fonitro a yw deilliannau yn cael eu cyflawni neu beidio.
- Datblygu ffurflenni gwerthuso (ar gyfer Adolygiadau Amddiffyn Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal) sy'n casglu adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth er mwyn hysbysu sut y darperir yn y dyfodol.

## Dyma beth wnaethom

Arolygiaeth Gofal Cymru

Bu i Arolygiaeth Gofal Cymru ein harchwilio ym mis Ionawr a Chwefror 2017 er mwyn adolygu pa mor dda yr oedd pobl yn cael eu gwasanaethu gan y cyngor pan oeddent eisiau gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Roeddent eisiau canfod pa mor hawdd yr oedd i bobl gysylltu â gwasanaethau plant, a oeddent yn derbyn digon o wybodaeth, ac a oedd hynny yn eu helpu i gael y gofal a'r cymorth yr oedd ei angen arnynt.

Roeddent yn edrych ar p'un a oeddem yn gwneud y penderfyniadau cywir ar yr adeg iawn, a pha mor effeithiol yr oeddem yn gweithio â sefydliadau eraill, megis y Bwrdd Iechyd a'r Heddlu.

Roedd y eu helpu i ddeall a ellid galluogi pobl i "fyw bywydau mor dda â phosibl".

Pan ystyriwyd bod plant yn wynebu risg o gael eu cam-drin , eu hesgeuluso neu eu niweidio, roeddent eisiau gweld a oeddem yn ymateb yn gyflym er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.

> Roedd y canfyddiadau yn gadarnhaol, a bu i ni lunio cynllun er mwyn gwella hyd yn oed mwy ar bethau.

## Dyma rai o'r pethau yr ydym wedi eu gwneud:

- Cynhyrchu taflen ar rôl y tîm Un pwynt mynediad (SPoA) ar gyfer partner asiantaethau, staff, y 'Siop wybodaeth' ac ysgolion i'w dosbarthu yn ehangach.
- Sicrhau bod adborth yn cael ei anfon i atgyfeirwyr pan fo'n briodol, a llythyrau cau yn cael eu hadolygu, er mwyn sicrhau bod asiantaethau yn cael y wybodaeth briodol.
- Hysbysu pob swydd yn ddwyieithog a cheisio denu staff Cymraeg.
- Comisiynu mwy o hyfforddiant ar asesu risg.
- Parhau i helpu i ddatblygu Ffurflen Atgyfeirio Gogledd Cymru safonol.

Dyma ddolen i'r adroddiad, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2017:

http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/report/170620wrexhamen.pdf

## Un Pwynt Mynediad i bobl ifanc

SPoA yw'r pwynt cyswllt cyntaf o hyd i unrhyw un sy'n gwneud atgyfeiriad newydd i wasanaethau plant - yn cynnwys partner asiantaethau ac aelodau'r cyhoedd.

Mae hefyd yn arenwi teuluoedd allai angen cymorth cynnar, ac yn cyfeirio pobl ifanc, rhieni a gofalwyr at wasanaethau all roi cymorth iddynt.

Mae'r SPoA yn cynnwys amrywiol asiantaethau ac adrannau'r cyngor, ac mae hynny'n golygu y gallwn ddarparu ystod ehangach o wybodaeth a chyngor.

Ac rydym yn edrych ar ffyrdd o atgyfnerthu hynny, yn cynnwys cysylltiadau agosach â'r Gwasanaeth Gwybodaeth Teuluol.

Rydym hefyd wedi sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar wefan Dewis Cymru (www.dewis.wales).

## Rhoi plant wrth galon asesiadau

Felly beth yw asesiadau? Wel, rydym yn credu y dylai plant fod wrth galon asesiadau.

Rydym wedi newid ein hymagwedd, ac yn ceisio gwneud mwy i ddeall amgylchiadau teuluoedd a beth maent eisiau, yn ogystal â'u cryfderau a'u galluoedd.

Rydym yn cydnabod y gall teuluoedd - gydag ychydig o gymorth - fodloni eu hanghenion eu hunain yn aml, ac nid ydynt angen gwasanaethau cymdeithasol bobo amser. Ond os ydym yn credu bod plentyn yn wynebu risg, rydym yn dal i weithredu heb oedi er mwyn diogelu eu llesiant.

Roedd prydlondeb ein hasesiadau yr unol â chyfartaledd Cymru, ac mae angen i ni wneud yn well. Mae amserlenni yn bwysig, ond mae ansawdd hefyd.

Mewn perthynas â sicrhau bod plant yn cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad, mae Wrecsam wedi perfformio'n well nag unrhyw Gyngor arall yn Wrecsam. Felly byddwn yn parhau i fonitro hynny.

Ac eto, mae'n dangos sut ydym yn adeiladu popeth o gwmpas y plentyn.

> Mae deall sut mae person ifanc yn teimlo yn allweddol er wyn bodloni eu hangh-enion, ac anghenion eu teulu.

Dyna pam fod gweld a siarad â phlentyn yn rhan ganolog o'n proses asesu.

## Canolbwyntio ar ddeilliannau

Rydym wedi sicrhau bod ein dogfennau asesu yn canolbwyntio ar 'ddeilliannau' - mewn geiriau eraill, y canlyniad terfynol.

Ond mae angen i ni wneud mwy gyda'n dogfennau cynlluniau gofal a chymorth, yr ydym wedi bod yn gweithio arnynt yn rhanbarthol er mwyn creu ymagwedd gyson ar draws Gogledd Cymru.

Roeddem yn gobeithio newid i system TGCh gofal iechyd a chymdeithasol genedlaethol newydd yn

2017 er mwyn ein helpu i wneud hynny.

Yn anffodus, bu oedi o ran gweithredu hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth. Rydym wedi cadw ein tîm prosiect, adolygu ein cynllun prosiect ac yn gobeithio gweithredu'r system newydd yn 2018-19.

## Hyfforddi ein staff

Bu i ni gynnal 12 sesiwn o hyfforddiant ymgysylltu gorfodol i staff Gofal Cymdeithasol i Blant.

Bu i gant a saith deg un o gyflogeion fynychu, ac rydym y bwriadu cynnal dwy sesiwn bob blwyddyn ar gyfer aelodau newydd.

## Casglu safbwyntiau pobl ifanc

Rydym yn gwybod bod yna feysydd ymgysylltu ble'r ydym yn gwneud yn dda, ac eraill y mae angen gwella arnynt.

Felly rydym eisiau ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall eu bod yn gwneud gwir wahaniaeth drwy fynychu cyfarfodydd a rhannu eu safbwyntiau gyda ni.

> "Rwy'n hoffi pan fo pobl yn gofyn i mi beth yw fy marn am newidiadau."

*Sylwad gan berson ifanc yn arolwg dinasyddion 2017.*

Mae Cyngor Gofal Pobl Ifanc yn casglu safbwyntiau yr holl blant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal yn Wrecsam, ac yn sicrhau y gwrandewir ac y gweithredir arnynt.

Bu i'w harolwg blynyddol amlygu pa mor bwysig yw preifatrwydd.

Felly ar sail hynny, ac ar ôl gwneud cais llwyddiannus am grant, bu iddynt wneud nifer o bethau:

- Bu iddynt gynnal gweithdy i bobl ifanc, hwyluso Theatr Dim Rhwystrau, er mwyn archwilio sut y gallent fynegi pa mor bwysig yw preifatrwydd iddynt.
- Bu iddynt weithio gyda sefydliad o'r enw Fixers er mwyn creu darn ar gyfer y cyfryngau a'i gyflwyno mewn digwyddiad lansio oedd yn cynnwys Gofalwyr Maeth a staff y cyngor, yn ogystal â phlant eraill oedd yn derbyn gofal ac yn gadael gofal.
- Bydd y gwaith yma yn cael ei ddefnyddio mewn hyfforddiant yn y dyfodol ac o bosibl yn cael ei anfon mewn pecynnau hyfforddi i ofalwyr maeth.

## Dyma beth ydym eisiau ei wneud yn 2018-19

- Parhau i weithredu systemau TGCh gofal cymdeithasol cenedlaethol (WCCIS) ar draws gwasanaethau plant ac oedolion.
- Gwella prydlondeb asesiadau.
- Cwblhau a gweithredu dogfen Cynllun Gofal a Chymorth Rhanbarthol.
- Gweithredu Ffurflen Atgyfeirio Gogledd Cymru.
- Gweithredu a monitro cynnydd yn erbyn ein cynllun gweithredu ymgysylltu.

# SAFON 2:

## Gweithio gyda phobl a phartneriaid er mwyn diogelu a hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol.

Mae hynny yn golygu helpu pobl i ofalu am eu iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol.

# GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION

## Dyma beth ydym wedi ei ddweud y byddwn yn ei wneud

- Ymgorffori'r fframwaith deilliannau cenedlaethol i'n gwaith, a gwaith ein partneriaid allanol. Bydd hynny yn rhoi ffordd newydd i ni fesur effaith yr hyn yr ydym yn ei wneud - a deall y gwahaniaeth yr ydym yn ei wneud i fywydau pobl.
- Parhau i ddatblygu ein cymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain a hyrwyddo annibyniaeth.
- Datblygu mwy ar wasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer y carchar newydd - Carchar y Berwyn - er mwyn sicrhau bod anghenion y dynion yn cael eu bodloni.

## Dyma beth wnaethom

**Helpu darparwyr ganolbwyntio ar ddeilliannau**

Yn ogystal â chyflwyno'r ddogfennaeth asesu integredig y cyfeiriwyd ati yn Safon 1, rydym hefyd wedi darparu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar hyfforddiant.

**Monitro deilliannau**

Rydym wedi ailddatblygu ein holl Ddangosyddion Perfformiad (sut mae Llywodraeth Cymru yn mesur pa mor dda yr ydym yn perfformio) yn erbyn y Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol.

Yn ogystal â pheilota'r Aseiniad Integredig newydd, bu i'r Tîm Anabledd ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol mewn perthynas â gwella deilliannau defnyddwyr y gwasanaeth. Eleni byddwn yn canolbwyntio'r hyfforddiant a'r datblygu yma ar ein darparwyr allanol.

Mae'r holl wasanaethau newydd a gontractir yn cynnwys fframwaith monitro sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau. Fodd bynnag, mae gennym waith i'w wneud o hyd er mwyn alinio deilliannau gwasanaethau a gontractir â'r Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol.

## Ymyrraeth gynnar ac atal

> Rydym eisiau ailffocysu buddsoddiad ar wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal.

Bydd hynny yn ein helpu i reoli'r galw yn wyneb pwysau cynyddol (llai o arian, mwy o alw).

Felly, pan ydym yn comisiynu gwasanaethau, rydym yn ceisio sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar helpu pobl i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth...a pharhau i fyw yn eu cartrefi am gyhyd â phosibl.

Mae'r ymagwedd hon yn gweithio, ac mae nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i gartrefi gofal preswyl hirdymor yn parhau i ostwng.

## Rhagnodi cymdeithasol

Mae meddygon teulu yn treulio llawer o amser yn delio ag effeithiau problemau cymdeithasol; Unigrwydd, dyled ac yn y blaen.

Felly gall meddyg teulu ragnodi rhyw fath o weithgaredd cymdeithasol os byddant yn credu y bydd hynny'n helpu...yn yr un modd y gallent ragnodi meddyginiaeth.

Er enghraifft, gall person hŷn sy'n teimlo'n unig elwa o fod yn rhan o grŵp cymunedol.

Rydym wedi dechrau cyflwyno rhagnodi cymdeithasol fel rhan o Ofal Sylfaenol. Mae meddygon teulu yn atgyfeirio eu cleifion i un o'n Asiantau Cymunedol, sy'n defnyddio eu cysylltiadau i'w helpu i gael mynediad i'r math priodol o weithgaredd cymdeithasol. Rydym wedi dechrau gweithio â 5 meddygfa ar draws Wrecsam. Derbyniwyd dros 20 o atgyfeiriadau i Asiantau Cymunedol gan feddygon teulu.

Mae'r broses o recriwtio Asiantau Cymunedol wedi bod yn araf, felly rydym wedi defnyddio ymagwedd raddol. Ond wrth i ni recriwtio mwy o Asiantau, byddwn yn gallu cyflwyno'r model ar draws y fwrdeistref sirol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

## Buddsoddi mewn ailalluogi

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau ailalluogi ac wedi datblygu Gwasanaeth Asesu ac Ailalluogi Tymor Byr, sy'n chwarae rôl allweddol mewn helpu pobl i gael annibyniaeth.

Rydym yn adolygu effeithlonrwydd y gwasanaeth, yn unol â chynlluniau i ddatblygu Un Pwynt Mynediad (SPoA) a chreu integreiddio agosach â Therapi Galwedigaethol.

## Pŵer Pedalau

Mae arian Cronfa Gofal Integredig wedi ein helpu i ymestyn menter Pŵer Pedalau er mwyn cynnwys pobl hŷn.

Mae'r gwasanaeth, sydd wedi ei leoli ym Mharc Gwledig Alyn Waters, yn amcanu at gynyddu gweithgaredd corfforol - gan hybu iechyd corfforol a meddyliol.

## Rhannu bywydau

Mae Rhannu Bywydau yn debyg i faethu, ond ar gyfer oedolion.

Mae'n fath rheoleiddiedig o ofal cymdeithasol, ac yn fenter genedlaethol, sy'n paru pobo sydd angen cymorth gyda gofalwyr a'u teuluoedd - yn seiliedig ar ddiddordebau cyffredin ac yn y blaen, ac mae'n golygu y gallent aros yn yr ardal leol, heb orfod byw ar eu pennau eu hunain neu mewn gartref gofal.

Mae Rhannu Bywydau yn cael effaith gadarnhaol yn Wrecsam, ac - ar ôl mesur y diddordeb ymysg defnyddwyr a gofalwyr - rydym wedi penderfynu ymestyn y gwasanaeth.

## Astudiaeth achos - Mrs P

Cafodd Mrs P, sy'n wyth deg saith oed, ei hatgyfeirio y tro cyntaf at Rannu Bywydau yn 2015.

Ar ôl derbyn ei chynllun gofal, roedd yn amlwg - yn ogystal â byw gyda chlefyd Alzheimer - ei bod yn gymdeithasol ynysig. Bu'n rhaid iddi ildio ei chath a'i thrwydded gyrru o ganlyniad i glefyd Alzheimer, ac roedd hynny'n golygu ei bod yn anodd iddi fynd i grwydro yn annibynnol.

Roedd hi'n arfer mwynhau paentio, dawnsio, crosio a garddio. Ond oherwydd ei chyflwr, roedd hi nawr yn ddynes unig, yn gwneud dim llawer mwy na gwylio'r teledu bob dydd. Felly gofynnodd ei hatgyfeiriad Rhannu Bywydau am sesiynau wythnosol 2 x 3 awr, fyddai'n ei galluogi i gael mynediad i weithgareddau cymunedol a rhyngweithio â phobl eraill - gan helpu i fynd i'r afael â'r unigrwydd oedd yn achosi pryder iddi.

Ers iddi ddechrau cael cymorth drwy Rannu Bywydau, mae ei hyder wedi gwella, mae lefel ei phryder wedi gostwng ac mae wedi meithrin perthynas o ymddiriedaeth gyda'i gofalwr Rhannu Bywydau. Ar ôl ychydig wythnosau yn unig, gallech weld y gwahaniaeth - roedd ei hwyneb yn goleuo wrth iddi siarad am y cymorth yr oedd yn ei dderbyn. Mae Rhannu Bywydau hefyd wedi lleihau'r pwysau ar ferch Mrs P, sydd yn cael y newyddion diweddaraf drwy'r adeg gan ei gofalwr.

## Helpu pobl sy'n gofalu am berthynas

Mae llawer o bobl yn gorfod gofalu am berthynas, ac - heb ychydig o help a chymorth - gall fod yn fwrn.

> Rydym yn ceisio helpu drwy ddarparu gofal seibiant sy' galluogi i ofalwyr gael seibiant, dal i fyny a chael bywyd y tu allan i'w rôl o ofalu.

Mae yna lawer o alw drwy'r amser, felly rydym wedi comisiynu Crossroads i ddatblygu gwasanaeth seibiant am ddim i ofalwyr gan ddefnyddio arian gan Lywodraeth Cymru.

Mae hynny'n golygu nad oes gennym restr aros mwyach. Ac nid ydym nawr yn gorfod defnyddio asiantaethau gofal preswyl ar gyfer gofal seibiant ac mae hynny yn helpu i reoli'r broblem capasiti y bu i ni gyfeirio ati'n gynharach.

Rydym hefyd yn edrych ar sut yr ydym yn comisiynu gwasanaethau gofalwyr yn ystod y 5 mlynedd nesaf, ac rydym wedi bod yn gweithio â gofalwyr er mwyn helpu i siapio beth ddylai'r gwasanaethau hynny fod yn y dyfodol.

## Defnyddio technoleg i helpu pobl

Bu i'r adran gymryd y prif gyfrifoldeb am deleofal yn 2017-18.

Gan ddefnyddio ein Aseswyr Gofal Cymdeithasol newydd, rydym wedi priflifo rhai asesiadau teleofal i Wasanaethau Anabledd, Tîm Pobl Hŷn, therapyddion Galwedigaethol ac Ailalluogi er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o Deleofal er mwyn galluogi pobl i gynnal a chynyddu eu hannibyniaeth.

Rydym hefyd yn gweithio â chwmnïau sy'n datblygu technoleg newydd soffistigedig er mwyn helpu pobl i fyw'n annibynnol.

> Mewn gwirionedd, mae'r defnydd cynyddol arloesol o dechnoleg mewn gofal cymdeithasol yn gyfle gwirioneddol gyffrous.

Bydd teleofal yn rheng flaen ein gwasanaethau - gan sicrhau ei fod yn un o'r pethau cyntaf y galwn ei gynnig i bobl.

## Cynorthwyo pobl yn y cartref a rhyddhau gwelyau ysbytai

Rydym wedi parhau i weithio â'r Bwrdd Iechyd er mwyn  darparu gofal yn 'agosach i'r cartref', gan ddefnyddio arian Cronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru.

Yn 2017-18, rydym yn gwybod bod 365 o bobl wedi cael helpu i aros yn eu cartrefi, yn hytrach na derbyn gofal mewn gwely ysbyty acíwt.

> Rydym yn amcangyfrif bob hynny wedi arbed tua 5,865 o ddyddiau gwelyau ysbyty acíwt.

## Sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn haws

Mae'r Ddeddf yn dweud y dylai cynghorau annog pobl i brynu eu gofal eu hunain gan ddefnyddio 'taliad uniongyrchol'.

Felly eleni, bu i ni ddechrau adolygu ein hymagwedd er mwyn helpu i sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn opsiwn deniadol i bobl.

Rydym wedi diweddaru ein gweithdrefnau ac wedi clustnodi cyfleoedd i weithio mwy â Chyngor Sir Y Fflint.

Rydym hefyd wedi dechrau datblygu cynllun hyfforddi staff, ac wedi dechrau gweithio â Chydweithredu i Ofalu er mwyn edrych ar ffyrdd eraill o gefnogi taliadau uniongyrchol

## Astudiaeth achos - Stori Rachel

Yn 2012, cafodd Rachel drawiad mawr ar y galon wrth gael llawdriniaeth cesaraidd brys. Cafodd anaf hypocsaidd ar yr ymennydd ac mae hi angen gofal 24/7.

Mae Rachel yn derbyn gofal preswyl gan asiantaeth annibynnol, ac mae'n derbyn cymorth yn y cartref gan ei mam Karan a'i phartner sydd yn byw gyda hi, yn ogystal â'i chwaer Emma a'i thad. Mae mam Rachel yn gofalu am Rachel a'i merch Freya fel y prif ofalwr, mam a nani, yn ogystal â chydlynu'r cymorth helaeth y mae Rachel ei angen er mwyn parhau i fyw yn y cartref.

Mae Karan angen seibiant o'i rôl o ofalu, ond mae darparu seibiant wedi bod bron yn amhosibl. Oherwydd y byddai unrhyw seibiant traddodiadol yn gwahanu mam am merch - ac nid yw hynny'n opsiwn oherwydd bod Rachel a Freya yn disgyn i gysgu gyda'i gilydd bob nos ac yn cael te a thost gyda'i gilydd bob bore.

Yn ffodus, mae Karan wedi gallu cael peth amser i ffwrdd o ofalu diolch i Emma chwaer Rachel, sy'n dod i gynorthwyo Rachel a Freya yn eu cartref. Ond mae hynny yn golygu bod Emma naill ai yn gadael ei dwy ferch fach gyda'u tad, neu bod pob un yn symud i gartref Karan.

Nid oedd y naill sefyllfa na'r llall yn ddelfrydol oherwydd yr amharu mawr ar fywydau pawb. Yna darganfuwyd ateb arloesol gan therapydd galwedigaethol Rachel a'i gweithwyr cymdeithasol, a gynigiodd droi garej yng nghartref Emma yn ystafell wely gyda chyfleusterau ystafell wlyb en-suite. Cafwyd cyllid drwy Daliadau Uniongyrchol. A dyma'r tro cyntaf y mae Taliadau Uniongyrchol wedi cael eu defnyddio mewn Therapi Galwedigaethol er mwyn ariannu addasiadau fel hyn.

Mae'r canlyniadau wedi bod yn llwyddiannus iawn. Erbyn hyn mae gan Rachel, Freya ac Emma gyfleusterau seibiant perffaith sy'n cadw'r teulu gyda'i gilydd, ac mae Karan yn gallu cael seibiant haeddiannol.

## Darparu gwasanaethau yn y carchar newydd

Mae gennym dîm bychan o weithwyr cymdeithasol penodol sy'n gweithio yng Ngharchar y Berwyn. Maent yn helpu i ddarparu gofal i ddynion sy'n cael eu rhyddhau yn ardal Wrecsam.

Mae Therapi Galwedigaethol yn cael ei ddarparu i'r dynion mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, yn ogystal â gwasanaeth gwybodaeth a chyngor a mentora a chymorth cymheiriaid.

Yn ogystal â chynnal asesiadau gofal cymdeithasol, rydym hefyd yn cefnogi ethos adsefydlu Carchar Berwyn a'r gweithdrefnau cymorth.

## Dyma beth ydym eisiau ei wneud yn 2018-19

- Peilota comisiynu sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau mewn gofal preswyl.
- Ymgorffori'r Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol yn llawn ym mhob gwasanaeth newydd a gomisiynir er mwyn sicrhau bod yr hyn sy'n bwysig i ddinasyddion yn cael ei fesur fel rhan o'n prosesau monitro contractau.
- Cyflwyno rhagnodi cymdeithasol mewn Gofal Sylfaenol ar draws Wrecsam.
- Adolygu trefniadau Taliadau Uniongyrchol a chynyddu'r defnydd - gwella'r cymorth sydd ar gael i bobl reoli Taliad Uniongyrchol a gweithio gyda phobl sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol er mwyn siapio gwasanaethau wrth symud ymlaen.
- Ehangu Rhannu Bywydau er mwyn darparu dewis amgen cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o'i gymharu â gwasanaethau traddodiadol, a gweithio gyda chydweithwyr ar draws Gogledd Cymru er mwyn datblygu gwasanaeth seibiant tymor byr rhanbarthol.

- Parhau i weithio gyda phartneriaid er mwyn integreiddio gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill yng Ngharchar y Berwyn, gan sicrhau bod ein gweithdrefnau a'n harferion yn ddigon cydnerth pan fo'r carchar yn llawn.
- Paratoi ymateb ein gwasanaethau cymdeithasol i ddynion fydd yn cael eu rhyddhau o Garchar y Berwyn, gan weithredu llinell gymorth a mentora cymheiriaid.

# GOFAL CYMDEITHASOL I BLANT

## Dyma beth ydym wedi ei ddweud y byddwn yn ei wneud

- Ymestyn prosiect Dychweliad ac Atal Wrecsam i fod yn fodel rhanbarthol.
- Recriwtio mwy o ofalwyr maeth generig ac arbenigol mewnol er mwyn bodloni'r galw a ragweli am leoliadau ar draws yr ystod oedran 0-21, a lleihau nifer y plant a phobl ifanc a osodir gyda darparwyr maethu annibynnol.

## Dyma beth wnaethom

**Helpu plant ag anghenion cymhleth**

Weithiau mae gennym blant ag anghenion cymhleth allai elwa o ofal maeth therapiwtig, yn hytrach nag aros mewn lleoliadau preswyl.

Felly rydym wedi datblygu ymagwedd tuag at hynny - o'r enw Prosiect Dychweliad ac Atal Wrecsam.

Gan ddefnyddio arian Cronfa Gofal Integredig, rydym wedi gallu ei ehangu i fod yn fodel isranbarthol rhyngom ni a Sir y Fflint, er mwyn hyrwyddo mwy ar gymorth i blant sy'n derbyn gofal sydd angen lleoliadau maeth therapiwtig cymhleth.

Er nad yw'r gronfa o ofalwyr maeth therapiwtig sydd ar gael wedi cynyddu, mae nifer y lleoliadau sydd ar gael wedi cynyddu - drwy roi hyfforddiant a chymorth i rai o'n gofalwyr maeth mewnol presennol.

Byddwn hefyd yn penodi swyddog recriwtio er mwyn ein helpu i ddenu mwy o ofalwyr maeth mewnol ac arbenigol er mwyn ceisio bodloni'r cynnydd sylweddol mewn galw am leoliad i blant.

### Rhywun i droi ato

Mae gennym nyrs Bwrdd Iechyd yn rhan o'n tîm gwasanaethau. Mae hi'n gweithio ag ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol a phediatryddon er mwyn helpu i ofalu am blant yr ydym yn rhoi cymorth iddynt.

“Rwyf yn mynd i weld CAMHS a nyrs yr ysgol a gallaf siarad â’r ddwy.”

*Sylwad o Arolwg Cyngor Gofal Pobl Ifanc Wrecsam 2017.*

Rydym hefyd yn rhoi cymorth i rai 11-18 oed sydd wedi bod yn yr ysbyty o ganlyniad i hunan-niweidio ac ymddygiadau eraill sy’n gysylltiedig â risg. Mae hynny yn rhan o brosiect yr ydym wedi ei gynnal gyda’r Bwrdd Iechyd ers 2006.

## Helpu teuluoedd

Rydym hefyd yn cyflogi gweithiwr iechyd i weithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol mewn ardaloedd Dechrau’n Deg (rhannau o Wrecsam sy’n cael cymorth menter genedlaethol er mwyn helpu plant o dan bedair oed).

Maent yn ymweld â chartrefi teuluoedd fydd efallai angen help - yn adnabod eu hanghenion yn gynnar, cyn i bethau waethygu.

Rydym eisoes wedi atgyfnerthu’r ffordd yr ydym yn gweithio â Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Glasoed BCUHB.

Mae gweithwyr cymdeithasol sy’n cefnogi teuluoedd â phroblemau iechyd meddwl cymhleth yn cyfarfod â gweithwyr iechyd proffesiynol unwaith y mis.

Mae’n gyfle i drafod anghenion y teulu - gyda gofalwyr maeth a gweithwyr iechyd eraill yn gallu bod yn bresennol hefyd.

Mae ein timau yn chwarae rôl bwysig wrth sicrhau bod anghenion iechyd plant yn cael eu bodloni, a bod gan yr holl blant sydd mewn lleoliadau gofal gofnod iechyd ac apwyntiadau meddygol rheolaidd.

**99%**

**Canran y plant sy’n derbyn gofal ar Fawrth 31, 2017 oedd wedi eu cofrestru â meddyg teulu o fewn 10 diwrnod gwaith o ddechrau eu lleoliad.**

## Dyma beth ydym eisiau ei wneud yn 2018-19

- Ailsefydlu rôl swyddog recriwtio a gweithredu ymgyrch recriwtio er mwyn cynyddu ein cronfa o ofalwyr maeth sydd ar gael.

# SAFON 3:

**Diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.**

Mae hynny'n golygu helpu i ddiogelu pobl allai wynebu ris o ddioddef camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed neu ecsploetiaeth

## GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION

### Dyma beth ydym wedi ei ddweud y byddwn yn ei wneud

- Gorffen cyflawni ein cynlluniau gweithredu diogelu oedolion - er mwyn cynnal diogelwch oedolion sy'n agored i niwed yn Wrecsam.
- Datblygu pob maes sydd wedi eu rhestru ar gyfer eu datblygu yn y cynlluniau gweithredu Corfforaethol a Thîm Diogelu Pobl.
- Sefydlu tîm diogelu ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion.
- Gweithredu gweithdrefnau newydd er mwyn cyflawni gofynion diogelu'r Ddeddf - yn ddibynnol ar arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

## Dyma beth wnaethom

**Cadw oedolion sy'n agored i niwed yn ddiogel**

Rydym wedi creu Tîm Diogelu Oedolion, sy'n arbenigo mewn diogelu oedolion.

Drwy ddatblygu profiad ac arbenigedd y tîm, rydym yn hyrwyddo gwell ansawdd, prydlondeb a chysondeb...o'i gymharu â phan fo diogelu yn cael ei daenu ar draws nifer o dimau. Mae hynny wedi ein galluogi i fyn i'r afael ag ôl-groniad gweinyddol o achosion diogelu oedolion, a lleihau'r amsera gymer i gwblhau ymholiadau ynghylch diogelu.

Rydym hefyd wedi datblygu polisi diogelu interim sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf, yn ddibynnol ar ddatblygu gweithdrefnau Cymru gyfan.

Rydym hefyd wedi cwblhau'r camau yn ein cynllun Gweithredu Diogelu Oedolion ac wedi buddsoddi amser sylweddol ar gyfer hyfforddi a datblygu ein staff a rheolwyr er mwyn gwella mwy ar ansawdd Diogelu Oedolion.

Rydym yn parau i fod yn bartner actif ar Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ac yn cyfrannu i'r is grwpiau lleol a rhanbarthol sy'n deillio o hynny. Rydym hefyd yn cefnogi'r broses o Adolygu Arferion Oedolion (mae hyn yn edrych ar ddigwyddiadau o gam-drin neu esgeulustod difrifol yng Ngogledd Cymru) ac yn sicrhau bod yr hyn a ddysgir o'r adolygiadau h yn cael ei rannu gyda staff ac yn hysbysu ein harferion gwaith.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a darparwyr y gwasanaeth o ddiogelu drwy hyfforddiant, ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd megis yr wythnos Diogelu Oedolion flynyddol, ac o ganlyniad i hynny rydym wedi gweld cynnydd parhaus yn nifer yr atgyfeiriadau diogelu oedolion a dderbynnir.

## Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS)

Rydym wedi datblygu Tîm DoLS er mwyn rheoli'r galw cynyddol am asesiadau ac awdurdodiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ac rydym wedi gwella ein prosesau ar gyfer helpu i ni ddelio ag asesiadau yn gyflym ac effeithiol, ac mae hynny wedi ein helpu i gael gwared â'n ôl-grynodiad.

Mae'r tîm hefyd yn rhoi cyngor i dimau a darparwyr gwaith cymdeithasol eraill, ac mae'n gyfrifol am ymchwilio i adroddiadau am golli rhyddid diawdurdod.

## Helpu pobl i fynegi eu teimladau

Weithiau mae pobl angen help i fynegi eu safbwyntiau a'u teimladau wrth ddelio â gwasanaethau cymdeithasol.

Rydym yn galw hynny yn 'eiriolaeth', ac mae'n rhan fawr o helpu defnyddwyr y gwasanaeth i ddatblygu eu deilliannau llesiant eu hunain.

Rydym yn adolygu sut mae eiriolaeth yn cael ei ddarparu yn Wrecsam er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf - yn sicrhau bod llais yr unigolyn yn cael ei glywed ar gamau allweddol ar hyd eu taith gyda gofal cymdeithasol.

> Bydd gwell eiriolaeth hefyd yn ein galluogi i reoli'r galw am wasanaethau, drwy roi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl.

### Helpu darparwyr gofal i wneud pethau'n iawn

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd ac Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW - bwrdd rheoleiddio'r gwasanaethau gofal) er mwyn gwella safonau ansawdd.

Rydym wedi trefnu cyfarfodydd er mwyn helpu i weithwyr iechyd proffesiynol ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a CIW drafod pryderon newydd gyda darparwyr a gontractir.  Mae'r cysylltiadau â diogelu yn cael eu harchwilio yn y cyfarfodydd.

Hefyd, drwy fonitro'n rheolaidd, rydym yn clustnodi darparwyr sy'n 'wynebu risg', ac yn cyfarfod â nhw er mwyn trafod pryderon a rhoi cynlluniau gweithredu ar waith.

Pan fo'n pryderon yn rhai arwyddocaol, rydym yn dilyn proses Pryderon sy'n Esgoli Gogledd Cymru, sydd ag amserlenni a disgwyliadau clir i ddarparwyr ddangos gwelliant. Mae dilyn y broses yn ein galluogi i ohirio lleoliadau newydd dros dro a hyd yn oed roi'r gorau i gontractio gyda darparwr yn gyfan gwbl (er mai dewis olaf yw hynny).

Drwy weithio gyda darparwyr, gallwn gynnig cymorth ac arweiniad agos er mwyn eu helpu i ddatrys eu problemau.

## Dyma beth ydym eisiau ei wneud yn 2018-19

- Byddwn yn parhau i ddatblygu polisi ac arferion Diogel er mwyn adlewyrchu'r newid mewn dyletswydd gyfreithiol o dan y Ddeddf, ac er mwyn ymateb i bolisi a gweithdrefnau cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru.
- Byddwn yn gwneud y mwyaf o welliannau perfformiad a wnaethpwyd yn bosibl drwy sefydlu Tîm Diogelu Oedolion.
- Byddwn yn gweithredu'r contract Eiriolaeth newydd, yn  unol â'r Ddeddf, er mwyn cynorthwyo rheoli galw yn yr adran, cynyddu dewis a rheolaeth i ddinasyddion a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

# GOFAL CYMDEITHASOL I BLANT

## Dyma beth ydym wedi ei ddweud y byddwn yn ei wneud

- Parhau i ddatblygu maes sydd wedi eu rhestru ar gyfer eu datblygu yn y cynlluniau gweithredu Corfforaethol a Thîm Diogelu Pobl.
- Parhau i wella lefelau cyfranogiad ac ymgysylltu pobl ifanc a thadau yn y broses diogelu plant.

# Dyma beth wnaethom

Rydym wedi cymryd camau cadarnhaol gyda'n cynlluniau gweithredu Corfforaethol a Thîm Diogelu Pobl.

## Gwybodaeth a hyfforddiant

Erbyn hyn rydym yn cynhyrchu cylchlythyr diogelu sy'n cael ei ddosbarthu ar draws y cyngor bob chwarter.

Rydym hefyd wedi rhoi hyfforddiant i gynghorwyr ar y polisi diogelu corfforaethol.

Mae ein Swyddogion Adolygu Trefniadau Diogelu Annibynnol (ISRO) wedi cael hyfforddiant Rhan IV (rheoli honiadau o gamdriniaeth ynghylch neu yn erbyn gweithiwr proffesiynol, aelodau staff neu wirfoddolwyr sydd mewn cysylltiad â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed / neu sy'n rheoli, arolygu neu'n dylanwadu ar wasanaethau). Mae hynny wedi digwydd  er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r Ddeddf.

Rydym hefyd wedi cynnal archwiliad blynyddol o ansawdd cofnodion cynadleddau diogelu plant. Bydd y gwersi s ddysgir yn hysbysu sut y datblygir ein harferion.

## Ymgysylltu â phlant a theuluoedd

Rydym yn parhau i geisio cynyddu cyfranogiad plant a theuluoedd yn y broses ddiogelu plant, ac mae hynny hefyd yn rhan o weithredu ein strategaeth ymgysylltu adrannol eangfrydig.

Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi comisiynu mwy o hyfforddiant ar asesu risg ac o ganlyniad bydd angen i ni addasu'r dogfennau yr ydym yn eu defnyddio ar gyfer hynny.

Rydym hefyd wedi gwella'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl ifanc ar ôl iddynt gael eu hasesu a'u hatgyfeirio i'n prosesau Diogelu Plant a Phlant sy'n derbyn Gofal.

Cyn pob cyfarfod adolygu, byddwn yn anfon ffurflen plentyn gyfeillgar iddynt y gallent ei defnyddio i ddweud wrthym beth yw eu dymuniadau a sut maent yn teimlo.

Eleni bu i ni hefyd gyflwyno ffurflenni adborth er mwyn cael gwell teimlad o beth yw safbwynt y plant am y cyfarfodydd, ac er mwyn siapio sut ydym yn gwneud pethau yn y dyfodol.

## Rhoi cyngor

Rydym yn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd - yn fewnol a gyda phartner asiantaethau - mewn nifer o ffyrdd.

Mae'r Tîm Diogelu Pobl yn rhoi cyngor i staff sy'n gweithio â phobl ifanc sy'n wynebu risg o niwed.

Mae'r arbenigedd yn y tîm yn helpu i ddarparu ymagwedd gyson tuag at ddiogelu ar draws gwasanaethau cymdeithasol yn Wrecsam.

## Trais Domestig

Mae gennym hefyd arbenigwr rhanbarthol sy'n rhoi hyfforddiant ar effaith camdriniaeth rywiol a thrais domestig ar blant a'u teuluoedd. Mae'r hyfforddiant ar gael i'n holl weithlu gofal cymdeithasol.

Bu i Weinidog Cynulliad Cymru (gyda chefnogaeth cynghorwyr) roi araith agoriadol Ymgyrch Rhuban Gwyn Wrecsam eleni, a helpodd hefyd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r materion hyn, gan ofyn i bobl addunedu i fyth beidio â chyflawni, goddef neu gadw'n dawel ynghylch trais yn erbyn merched.

Bu i Wrecsam gymryd rhan yn Wythnos Ddiogelu yn ystod 2017, gyda ffocws eleni ar iechyd meddwl a cydnerthedd.

Roedd Gofal Cymdeithasol i Blant yn weithredol yn ystod yr wythnos, gyda staff yn treulio'r diwrnod ym Mhrifysgol Glyndŵr yn rhoi sylw i drefniadau diogelu yn yr ardal.

Drwy gydol yr wythnos roedd yna flogiau dyddiol a ffrydiau Twitter yn amlygu amrywiol faterion megis caethwasiaeth fodern, masnachu plant, ecsbloetio plant yn rhywiol, ac agenda 'Atal'.

**96%**

**Canran y plant 7+ oed a atebodd 'ydw' neu 'weithiau' pan ofynwyd iddynt a oeddent yn teimlo'n ddiogel.**

*Arolwg Dinasyddion 2017*

## Diwylliant o ddysgu

Ni allwch fyth ddysgu gormod, ac rydym yn ymrwymedig i ddatblygu diwylliant o ddysgu yma yn Wrecsam.

Er enghraifft, mae argymhellion Adolygiadau o Arferion Plant (sy'n edrych ar ddigwyddiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod difrifol yng Nghymru) yn cael eu rhannu gyda'n timau gwasanaethau cymdeithasol.

Rydym yn eu defnyddio i ddatblygu ein gweithdrefnau a siapio beth ydym yn ei wneud.

Rydym hefyd yn cyfrannu arbenigedd ac adnoddau i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru - sy'n helpu i gydlynu gwaith yn y rhanbarth.

### Dyma beth ydym eisiau ei wneud yn 2018-19

- Adolygu a diweddaru dogfennaeth asesu risg sy'n tanategu dadansoddi asesu.
- Cynnal adolygiad o broses Panel CSE yng ngoleuni newidiadau arfaethedig i ganllawiau cenedlaethol yn 2018.
- Sicrhau bod gofal cymdeithasol i blant yn parhau i gydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn unol â'r prosiect corfforaethol.
- Cynnal adolygiad o ansawdd cynlluniau diogelu plant a rhoi unrhyw gamau a glustnodwyd ar waith.

# SAFON 4:

## Helpu pobl i ddysgu, datblygu a chyfranogi mewn cymdeithas.

Mae'r safon yma yn ymwneud ag annog pobl i gymryd rhan mewn cymdeithas - gan eu helpu i ddysgu, rhyngweithio a phobl eraill a bod yn rhan o'u cymunedau.

## GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION

### Dyma beth ydym wedi ei ddweud y byddwn yn ei wneud

- Parhau i gynyddu nifer Asiantau Cymunedol a datblygu eu ròl ar draws y fwrdeistref.
- Parhau i ehangu'r gwasanaeth Rhannu Bywydau.
- Adolygu'r gwasanaeth Cyfleoedd Dydd a Gwaith ar gyfer pobl anabl.

### Dyma beth wnaethom

#### Cyflwyno Asiantau Cymunedol

Rydym eisoes wedi cyfeirio at Asiantau Cymunedol yn yr adroddiad hwn (gweler safonau 1 a 2), ond dyma ychydig mwy o fanylion.

Comisiynwyd AVOW (Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam) i fod yn rheolwyr prosiect y fenter ar ran y cyngor a'r Bwrdd Iechyd.

Mae cynnydd da wedi bod, gyda 24 o gynghorau cymuned yn recriwtio asiantau cymunedol ar gyfer eu hardaloedd lleol

## Mae cynlluniau wedi eu sefydlu er mwyn ehangu'r cynllun ar draws y fwrdeistref gyfan.

Rhan o rôl Asiant Cymunedol yw clustnodi anghenion nad ydynt yn cael eu bodloni yn eu cymuned, a datblygu datrysiadau creadigol.

Mae asiantau yn gallu gwneud cais am Grant Cynhwysiant Cymunedol er mwyn sefydlu gweithgareddau neu grwpiau cymdeithasol. Ond, nid ydynt bob amser angen yr arian yma, ac yna aml gallent roi pethau ar waith drwy ddefnyddio asedau cymunedol sy'n bodoli.

Drwy gydol y flwyddyn hon, mae Asiantau Cymunedol wedi ehangu eu rôl. Erbyn hyn maent yn creu cysylltiadau â chartrefi gofal preswyl ac yn ymweld â ac yn cynorthwyo pobl hŷn sydd wedi symud i gartref gofal er mwyn helpu i gynnal cysylltiadau â'u cymunedau.

### Rhagnodi rhywbeth cymdeithasol

Rydym hefyd wedi cyfeirio at sut yr ydym yn cyflwyno rhagnodi cymdeithasol mewn perthynas â Gofal Sylfaenol (gweler Safon 2), a sut yr ydym yn defnyddio Asiantau Cymunedol fel y prif sianel ar gyfer atgyfeiriadau gan feddygon teulu.

Nid ydym am ailadrodd hynny i gyd yma, ond mae'n deg dweud bod y gwaith wedi gwneud cyfraniad mawr i Safon 4 - helpu pobl i ddysgu, datblygu a chyfranogi mewn cymdeithas.

### Rhannu bywydau

Rydym hefyd wedi egluro sut y mae ein gwasanaeth rhannu Bywydau yn creu effaith gadarnhaol (gweler Safon 2).

Eto, nid ydym am ailadrodd y wybodaeth, ond mae hefyd wedi gwneud cyfraniad pwysig i'n gwaith o dan Safon 4.

### Cyfleoedd Dydd a Gwaith

Rydym yn adolygu sut y mae Cyfleoedd Dydd a Gwaith yn cael eu darparu i bobl gydag anableddau dysgu neu gorfforol neu broblemau iechyd meddwl.

Mae Cyfleoedd Dydd a Gwaith yn rhan o'r Gwasanaeth Anabledd, ac yn darparu gwasanaeth i tua 114 o bobl.

## Ond er mwyn cyflawni ein dyletswyddau o dan y Ddeddf - a bodloni galw yn y dyfodol - mae angen i ni edrych ar ddewisiadau amgen.

Rydym yn edrych ar ymagweddau newydd sy'n hyrwyddo dewis a rheolaeth, ac sy'n helpu unigolion fod yn rhan o'r cymunedau maent yn byw ynddynt.

A byddwn yn canolbwyntio mwy ar bobl ag anghenion cymhleth na ofelir cystal amdanynt ar hyn o bryd, yn cynnwys dementia cynnar ac anafiadau i'r ymennydd.

Mae'n debygol y bydd y galw am gymorth gydag anableddau cymhleth yn cynyddu, ac rydym eisoes wedi clustnodi tua 30 o bobl fydd yn gadael addysg yn ystod y ddwy flynedd nesaf fydd angen cymorth.

### Taclo unigrwydd   ac arwahanrwydd

Mae'r Tîm Anabledd wedi datblygu Hyb Cyfeillgarwch Wrecsam er mwyn helpu pobl sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig.

Fe'i sefydlwyd ar ôl i ni siarad â phobl ag anableddau dysgu, a bu iddyn nhw ddweud wrthym pa mor ynysig yr oeddent yn teimlo. Yn ogystal â meithrin cyfeillgarwch, mae hefyd yn helpu pobl i gael mynediad i grwpiau a gweithgareddau lleol.

### Dyma beth ydym eisiau ei wneud yn 2018-19

- Ymgorffori a thyfu ein gwasanaethau Rhannu Bywydau estynedig yn llawn (mae hynny hefyd yn un o amcanion Safon 2).
- Parhau i ehangu rôl Asiantau Cymunedol.
- Cwblhau a gweithredu adolygiad llawn o gyfleoedd  dydd a gwaith.

# GOFAL CYMDEITHASOL I BLANT

### Dyma beth ydym wedi ei ddweud y byddwn yn ei wneud

- Ymgorffori cwblhau Cynlluniau Addysg Personol (PEP) yn brydlon yn unol â phroses adolygu'r Cynllun Gofal a Chymorth.

## Dyma beth wnaethom

Mae ein cydlynydd addysg yn parhau i gynorthwyo'r bobl ifanc yr ydym yn gofalu amdanynt drwy'r ysgol a'r coleg.

Mae'n swydd wirioneddol bwysig, ac mae'n helpu i atal neu leihau'r amharu ar eu haddysg (er enghraifft os ydynt angen symud i leoliad neu ysgol newydd).

## Cynlluniau Addysg Personol

Rydym wedi addasu'r ffordd yr ydym yn monitro prydlondeb Cynlluniau Addysg Personol (PEP) cychwynnol eleni, yn unol â gofynion y Ddeddf.

Fodd bynnag, mae prydlondeb yn dal i fod yn her, ac mae'r gwaith o edrych ar sut mae PEP yn cael eu hymgorffori i broses gynllunio Gofal a Chymorth wedi cael ei ohirio nes y bydd y system TGCh iechyd a gofal cymdeithasol newydd yn cael ei rhoi ar waith.

## Creu newid

Mae gennym swyddog Creu Newid Gyda'n Gilydd (TAC) sy'n gweithio o fewn SPoA Plant er mwyn helpu i glustnodi teuluoedd sydd angen help cynnar.

Mae proses TAC yn ffordd o drefnu a chydlynu help ychwanegol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol, ond nad yw eu hanawsterau yn ddigon difrifol i gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol.

Gellir cynnig cymorth i deuluoedd neu i unigolion yn unig.

> "Mae TAC wedi ysgwyddo ychydig o'r pwysau ac wedi fy ngalluogi i ac eraill i fynd ar drywydd pethau fel y gallaf ganolbwyntio ar fod yn fam. Rwy'n teimlo'n fwy hyderus y gallaf ganfod atebion i broblemau."
>
> *Sylwad gan ddefnyddiwr gwasanaeth TAC o ffurflen werthuso TAC - Gorffennaf 2017.*

## Y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf

Mae Wrecsam yn da i fod yn u o ddau safle 'braenaru' sy'n cydfarnu at y rhaglen 1,000 o Ddiwrnodau Cyntaf gydweithredol.

Wrth amcanu at roi'r dechrau gorau i fywyd i bob plentyn, mae' ffocws ar y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf o genhedlu i ddwy oed. Mae hynny yn cynrychioli cyfnod o ddatblygiad ymenyddol cyflym iawn - sy'n allweddol ar gyfer gosod y sylfaen i fywyd yn y dyfodol.

Mae cydweithrediaeth 1,000 o Ddiwrnodau Cyntaf wedi cael ei sefydlu er mwyn sicrhau ein bod gyda'n gilydd yn gwneud popeth a allwn er mwyn cynorthwyo teuluoedd yng Nghymru yn ystod y cyfnod allweddol yma yn natblygiad plentyn.

Mae hynny yn cynnwys grwpiau llywio, sy'n cynnwys cynrychiolaeth traws sector o awdurdodau lleol, y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector a chymunedau, sy'n datblygu deilliannau cyffredin, ynghyd â chefnogaeth genedlaethol gan Cymru Well.

## Cynorthwyo gofalwyr ifanc

Rydym hefyd yn cynorthwyo gofalwyr ifanc drwy ein partneriaid Credu.

Gofalwyr ifanc yw plant sy'n gofalu am rywun yn y cartref (rhiant, brawd neu chwaer er enghraifft) ac yn aml maent yn ysgwyddo cyfrifoldebau mawr ar ysgwyddau bach.

Mae cyngor a gwybodaeth, cymorth un i un, teithiau a gweithgareddau - yn ogystal â chyfleoedd i gyfarfod â gofalwyr ifanc eraill - yn helpu i'r plant yma brofi pethau allai fod yn amhosibl fel arall.

## Astudiaeth achos - helpu gofalwr ifanc

Roedd ysgol yn Wrecsam yn cael trafferth gydag ymddygiad disgybl, ac yn cael anhawster bodloni ei hanghenion.

Roedd ar y Sbectrwm ASD, nid oedd yn mynychu unrhyw ddosbarthiadau prif lif, ac yn aml yn chwarae triwant.

Yn ystod cyfarfod, daeth i'r amlwg ei bod yn cael pyliau treisgar yn y cartref a bod ei mam a'i chwaer iau yn ei chael yn anodd i ymdopi â'i chyflwr.

Roedd mam yn teimlo'n euog iawn. Nid oedd yn teimlo bod ei merch iau yn cael unrhyw gymorth a bod popeth yn y cartref yn troi o gwmpas y ferch hŷn.

Roedd mam, oedd newydd roi'r gorau i'w gwaith oherwydd bod y sefyllfa yn achosi straen iddi, hefyd yn bryderus bod ei merch iau yn aros adref yn aml - oherwydd ei bod yn poeni beth allai ddigwydd pan nad oedd yno.

Atgyfeiriwyd yr achos i Credu er mwyn gweld pa gymorth ellid ei gynnig i'r chwaer iau.

Ar ôl sesiynau un i un a'i chyflwyno hi i grŵp gofalwr ifanc Wrecsam, penderfynodd ar y cychwyn nad oedd yn addas iddi hi - roedd yn teimlo ei fod yn rhy fawr ac nid oedd yn mwynhau ei hamser yno.

Ond, ailsefydlwyd cyswllt â'r teulu, ailddechreuodd sesiynau un i un a threfnwyd iddi fynychu grŵp llai yn agosach i'w chartref - er mwyn gwella ei hyder.

Erbyn hyn mae'n mwynhau ei hun yn fawr yn y grŵp ac mae hyd yn oed wedi cofrestru i fynd ar arosiadau dros nos mewn digwyddiadau a drefnir gan Credu.

Bydd sesiynau un i un hefyd yn parhau, gan adeiladu ei hyder a chefnogi'r pontio esmwyth o ysgol gynradd fechan i ysgol uwchradd fawr yn y dyfodol agos.

Erbyn hyn mae'n teimlo'n ddigon hyderus i fynychu tripiau a grwpiau, ac mae mam yn teimlo'n llai euog, oherwydd maent yn gallu treulio mwy o amser gyda'i gilydd erbyn hyn.

Mae mam hefyd yn teimlo'n fwy hyderus fel rhiant, ac mae'n falch o sut mae pawb yn y teulu wedi ymdopi.

### This is what we want to do in 2018-19

- Datblygu'r gwaith er mwyn ymgorffori'r PEP yn nogfennaeth ein Cynllun Gofal a Chymorth, a hynny wedi ei gysylltu â gweithredu system TG iechyd a gofal cymdeithasol newydd.
- Ar ôl cwblhau hynny, gweithredu'r Cynllun Asesu a Chymorth i Ofalwyr Ifanc rhanbarthol.
- Lleihau'r oedi wrth gael mynediad

## SAFON 5:

Helpu pobl i gynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach.

Mae'r safon yma yn ymwneud â helpu pobl i feithrin perthnasoedd iach yn y cartref a gyda phobl sy'n agos iddynt.

## GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION

### Dyma beth ydym wedi ei ddweud y byddwn yn ei wneud

- Ehangu Asiantau Cymunedol er mwyn cynnwys y fwrdeistref gyfan, yn ogystal â'r gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol gyda meddygon teulu.
- Datblygu mwy ar ein hymagwedd sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau tuag at asesu a rheoli gofal.
- Ehangu hyfforddiant ar ddeilliannau i ddarparwyr allanol, megis ein darparwyr gofal preswyl a byw gyda chymorth - gan eu helpu i weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio fwy ar y dinasyddion.

# Dyma beth wnaethom

## Asiantau Cymunedol a rhagnodi cymdeithasol

Rydym eisoes wedi egluro sut ydym yn cyflwyno Asiantau Cymunedol ac yn eu defnyddio i ddatblygu rhagnodi cymdeithasol.

Mae'r gwaith hwn hefyd yn gwneud cyfraniad allweddol o dan Safon 5 - helpu pobl i gynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach.

## Dogfennaeth Asesu Integredig

Rydym hefyd wedi egluro ein dogfennaeth Asesu Integredig yn Safon 1.

Eto, nid ydym am ailadrodd hynny yma, ond mae'r gwaith yn cyfrannu at Safon 5 hefyd.

## Pobl hŷn mewn cartrefi gofal

Bu i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru gwblhau adolygiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Roedd yn argymell defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal - yn cynnwys prosiectau rhyng-genedlaethau sy'n cysylltu pobl hŷn â phobl iau - er mwyn helpu i breswylwyr gynnal a datblygu cyfeillgarwch.

> Mae cyfarfodydd ar gyfer cydlynwyr gweithgareddau mewn cartrefi gofal wedi cael eu sefydlu hefyd, er mwyn eu helpu i rannu adnoddau a syniadau.

Pan fo hyn yn cael ei ysgrifennu, mae o leiaf 10 o gyfarfodydd wedi cael eu cynnal. Maent yn cael eu cynnal yn chwarterol ac mae presenoldeb yn dda.

## Astudiaeth achos - cyfarfodydd cydlynydd gweithgareddau

Dechreuodd y cyfarfodydd ym mis Mai 2015 ac un o'r deilliannau allweddol oedd dod â chydlynwyd gweithgareddau at ei gilydd i rannu adnoddau, dysgu mwy am y gwasanaethau sydd ar gael i'w preswylwyr, a gweithredu fel rhwydwaith cymorth i'w gilydd.

Nod arall oedd helpu cydlynwyr weld buddion cydweithio er mwyn rhannu costau ac adnoddau rhwng cartrefi.

Mae hynny'n ategu'r safbwynt a fynegir gan y Comisiynydd Pobl Hŷn yn yr adroddiad 'Lle i'w Alw'n Gartref' - yn galw am i gymorth gael ei roi i bobl hŷn er mwyn eu helpu i gynnal cyfeillgarwch, a mwynhau cyswllt cymdeithasol ystyrlon yn eu cartref gofal a thu allan.

Mae adborth o'r cyfarfodydd wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Mae'r rhai sy'n mynychu yn dweud eu bod yn fwy ymwybodol â'r gweithgareddau sydd ar gael, a bod hynny wedi gwella'r dewis y gallent ei gynnig i'r preswylwyr.

## Dyma beth ydym eisiau ei wneud yn 2018-19

- Sicrhau ein bod yn ymgorffori'r Asesiad Integredig yn llawn er mwyn canolbwyntio ar ddeilliannau a chynllunio cymorth creadigol er mwyn galluogi pobl i gyflawni 'beth sy'n bwysig iddyn nhw'.
- Parhau ân gwaith i wireddu uchelgais strategaeth y Comisiynydd Pobl Hŷn 'Lle i'w Alw'n Gartref' a darparu yn erbyn y cynllun gweithredu sydd wedi ei sefydlu.
- Parhau â'n gwaith gyda'r Bwrdd Iechyd a'r Gymdeithas Alzheimer er mwyn datblygu gwell cymorth a gwasanaethau i bobl sy'n byw â dementia cynnar a'u teuluoedd/gofalwyr.
- Parhau i weithio gyda gofalwyr er mwyn cwblhau ein strategaeth gofalwyr diweddariedig a chomisiynu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a seibiant newydd i ofalwyr.

# GOFAL CYMDEITHASOL I BLANT

## Dyma beth ydym wedi ei ddweud y byddwn yn ei wneud

- Parhau i ddatblygu mecanweithiau atgyfeirio yn y Gwasanaeth Atal a Chymorth (PASS) - y Tîm Craidd ac Oriau Effro - yn cynnwys casglu mwy o fanylion am ddeilliannau'r ymyriadau a'r gwasanaethau a ddarperir.

## Dyma beth wnaethom

### Dogfennaeth fwy clir

Rydym wedi mireinio ein dogfennaeth atgyfeirio a'r broses i'r Gwasanaeth Atal a Chymorth (Tîm Craidd ac Oriau Effro), sy'n darparu gwell eglurder ynghylch pa gymorth y gofynnir amdano.

## Cynorthwyo teuluoedd

Mae'r Tîm Oriau Effro wedi bod yn gwbl weithredol ers Mehefin 2016.

Mae'r tîm yn amcanu at ddarparu gwasanaethau rhwng 7 a 10pm, 7 diwrnod yr wythnos - gan alluogi gweithwyr i gynorthwyo rhieni gydag arferion rheolaidd, rheoli ymddygiad a datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda theuluoedd.

Mae'r tîm hefyd yn cynorthwyo gyda gofal maeth a lleoliadau mabwysiadu sydd mewn perygl o fethu, yn ogystal â darparu cymorth i'r glasoed 16+ oed sy'n cael trafferthion ymdopi yng nghartref y teulu neu mewn llety â chymorth.

Mae gan y tîm safle plentyn gyfeillgar ble mae staff yn ymgymryd â gwaith uniongyrchol a chyswllt dan oruchwyliaeth gyda defnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r ymagwedd yn effeithiol ac rydym yn ymrwymedig i'w ddatblygu.

> "Roedd yn dda iawn am ddangos arferion rheolaidd yn ystod y bore a'r nos, oedd yn arfer achosi anhawster i mi. "Roedd siartiau ymddygiad ac ysgogiad yn gweithio'n dda Roedd y plant wrth eu bodd ac yn ysu i gael sticeri."

*Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar Fforymau Gwerthuso Oriau Effro - 2017.*

Mae ffurflenni gwerthuso ar gael ar gyfer y Tîm Craidd a'r Tîm Oriau Effro ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar gasglu mwy o fanylion am ddeilliannau eu hymyriadau.

## Pan fo pobl ifanc yn mynd ar goll

Eleni rydym wedi creu swydd yn PAS er mwyn sicrhau bod 'cyfweliad dychwelyd adref' yn cael ei gwblhau pan fo person ifanc yn mynd ar goll. Ac er mwyn sicrhau bod y person ifanc yn cael ei weld o fewn 72 awr ar ôl iddo fynd ar goll.

Mae hynny hefyd yn sicrhau y delir ag unrhyw risg o ecsbloetio rhywiol a bod hynny yn destun asesiad risg.

### Ar gyrion gofal

Rydym hefyd wedi gallu cael mynediad i gyllid i ariannu swydd arweinydd tîm arall yn PASS er mwyn datblygu proses cyfarfodydd grŵp teuluol. Gyda'r ffocws ar ymyrraeth gynnar ac achosion cymorth.

Y nod yw ceisio adnabod plant a'u teuluoedd sydd ar gyrion gofal, fel bod cymorth yn cael ei roi yn gynharach er mwyn ceisio osgoi gwaethygiad.

### Helpu gofalwyr maeth feithrin perthnasoedd cadarnhaol

Yn Wrecsam, rydym yn parhau i gefnogi rhaglen Hyder mewn Gofal. Mae hon yn rhaglen a ariennir gan Gronfa'r Loteri Fawr sy'n nu at hyfforddi 1,500 o ofalwyr maeth yng Nghymru i wella eu hyder a gwella sefydlogrwydd lleoliadau.

Mae'r cwrs yn para am 12 wythnos yn flynyddol, ac mae'n dysgu gwahanol dechnegau i ofalwyr maeth er mwyn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â'r plant a'r bobl ifanc sydd yn eu gofal.

### Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Mae Wrecsam hefyd yn parhau i westeio Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (NWAS), sy'n helpu i osod plant na all ddychwelyd i fyw gyda'u rhieni.

Cydnabuwyd yn genedlaethol y gallai mabwysiadwyr fod angen cymorth drwy gydol bywyd y plentyn / person ifanc, ac rydym yn parhau i edrych ar ffyrdd o ddatblygu ein gwasanaeth cymorth ôl-fabwysiadu.

## Canolfannau i deuluoedd

Mae gan y cyngor ddwy ganolfan i deuluoedd sy'n darparu ystod o wasanaethau. Er enghraifft, mae'r Tîm Rhianta yn cynnig ymyrraeth gynnar i deuluoedd sydd angen cymorth rhianta - yn cynnwys help un i un a sesiynau grŵp.

Mae'r ddwy ganolfan yn cefnogi menter Dechrau'n Deg ac yn cynnig sesiynau am 42 wythnos y flwyddyn.

Eleni bu i ni ail-leoli ein Canolfan Teuluoedd Ffordd y Deon ym Morras i leoliad mwy canolog yn Rhosddu.

Enw'r ganolfan nawr yr Tŷ Ni ac mae'n cynnig amgylchedd mwy modern a phlentyn gyfeillgar i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Hefyd mae yna gymorth mwy dwys ar gael i deuluoedd yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio sylweddau a thrais domestig.

Mae hynny yn cynnwys Rhaglen Rhyddid i famau sy'n dioddef trais domestig.

“Mae’r cwrs wedi fy helpu i, ac roedd y cymorth yn wirioneddol dda a buddiol.”

*Adborth gan ddefnyddiwr y gwasanaeth a elwodd o’r prosiect.*

## Helpu teuluoedd â phroblemau rhianta

Mae’r Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd (IFSS) yn dîm amlasiantaeth sy’n gweithio’n uniongyrchol â theuluoedd sy’n cael anawsterau rhianta o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau a chymhlethdodau eraill - megis iechyd meddwl neu drais domestig.

Mae ymyrraeth IFSS yn cynnwys rhaglen ddwys 4-6 wythnos, yn yna cyfnod llai dwys o hyd at 12 mis.

“Mae IFSS wedi helpu llawer arnaf. Mae wedi gwneud i mi sylweddoli bod angen i mi wneud newidiadau nad oeddwn hyd yn oed yn ymwybodol ohonynt, ac rwyf eisoes wedi dechrau ar hynny ac mae wedi fy helpu i deimlo’n llawer gwell.”

*Ffurflen Adborth IFSS - Awst 2017*

## Dyma beth ydym eisiau ei wneud yn 2018-19

- Gweithredu dogfen ddeilliannau ar gyfer PASS sy’n gwerthuso llwyddiant yr ymyriadau.
- Parhau i gynorthwyo ein canolfannau i deuluoedd gyda’u hymdrechion i fod yn ddi-bapur.
- Datblygu ein gwasanaethau cymorth ôl-fabwysiadu er mwyn helpu plant ag anghenion cymhleth.

# SAFON 6:
## Helpu pobl i gyflawni gwell llesiant economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion.

Mae hynny yn golygu helpu pobl i wella eu hincwm. Yn ogystal â'u helpu i elwa o fywyd cymdeithasol a lle addas i fyw ynddo.

## GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION

### Dyma beth ydym wedi ei ddweud y byddwn yn ei wneud

- Ystyried ail ddylunio tai lloches er mwyn bodloni anghenion y genhedlaeth hon yn well a chenedlaethau'r dyfodol.

### Dyma beth wnaethom

#### Cyfleuster gofal ychwanegol

Rydym yn gweithio â Chymdeithas Tai Pennaf ar ddatblygu Cyfleuster gofal ychwanegol newydd yng nghanol tref Wrecsam.

Bydd yn ymestyn ein stoc o randai gofal ychwanegol o 54 i 114 erbyn Awst 2018.

Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i drigolion Wrecsam sydd ag angen a aseswyd, a bydd y cynllun yn darparu gwahanol lefelau o ofal a chymorth.

#### Opsiynau tai i bobl ag anableddau

Rydym wedi gweithio'n agos ag adran dai y cyngor ar strategaeth tai 2018-23. Bydd ymgorffori ein gofynion i gynlluniau'r dyfodol yn helpu i sicrhau bod gan Wrecsam dai o ansawdd priodol ar gyfer pobl ag anghenion gwahanol.

Mae'r Gwasanaeth Anabledd yn darparu 162 o denantiaethau â chymorth mewn 64 eiddo yn Wrecsam er mwyn bodloni anghenion tenantiaid anabl. Mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n agos â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'n hadran tai ein hunain er mwyn cynyddu'r stoc eiddo addas.

Mae gwaith hefyd wedi cael ei wneud er mwyn cefnogi datrysiadau tai pwrpasol ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth ac arbenigol. Defnyddiwyd Grant Tai Cymdeithasol (SHG) er mwyn helpu i

adeiladu dau eiddo ar gyfer unigolion anabl. Mae un bron â'i gwblhau a bydd yn galluogi i dri dyn, y mae eu hanghenion wedi cynyddu, i barhau i fyw yn y gymuned.

Mae'r ail adeilad yn y camau cynllunio, a bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pedwar unigolyn ag anghenion tai a chymorth cymhleth. Gobeithir y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ym Mawrth 2018. Ar ôl ei gwblhau, bydd yn galluogi i un ddynes ddod yn ôl i Wrecsam o du allan i'r sir. Bydd hefyd yn gartref i ddwy ddynes y mae eu llety presennol yn anaddas, a phedwaredd dynes fel rhan o'i phontio o'r gwasanaethau plant ac addysg.

Rydym hefyd yn archwilio datblygu cyfleoedd mewn perthynas â thai pwrpasol 'cam i lawr' er mwyn helpu i gynnal a datblygu annibyniaeth tenantiaid a galluogi pobl i bontio o fyw gyda chymorth i fyw yn fwy annibynnol

### Grantiau cyfleusterau anabl

Rydym yn parhau i fuddsoddi llawer mewn grantiau cyfleusterau anabl, ac mae'r amser aros cyfartalog wedi gostwng i 206 dyd.

Mae arian ar gael drwy Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i gartrefi preswyl a nyrsio brynu gwelyau arbenigol a phecynnau offer.

Y nod yw helpu i fwy o bobl dderbyn gofal ble maent yn byw, gan leihau'r nifer sydd angen eu derbyn i ysbytai.

## Dyma beth ydym eisiau ei wneud yn 2018-19

- Gan weithio â Chymdeithas Tai Pennaf, byddwn yn sicrhau bod rhandai yn cael eu dyrannu i bobl fyddai'n elwa o'r cyfleuster gofal ychwanegol yn Wrecsam. Byddwn hefyd yn gweithio â'r darparwr er mwyn gwneud y mwyaf o fuddion cymunedol y cynllun.

# GOFAL CYMDEITHASOL I BLANT

## Dyma beth ydym wedi ei ddweud y byddwn yn ei wneud

- Defnyddio arian grant i daclo digartrefedd ymysg rhai sy'n gadael gofal yn Wrecsam.

## Dyma beth wnaethom

### Gwneud y penderfyniadau cywir

Mae tîm Un Pwynt Mynediad Plant (SPoA) yn cynnwys swyddog tai sy'n ein helpu i wneud y penderfyniadau cywir yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol a thai.

95%

**Canran y plant 7+ oed a atebodd 'ydw' neu 'weithiau' pan ofynwyd iddynt a oeddent yn byw mewn cartref ble maent yn hapus**

Arolwg Dinasyddion 2017

## Helpu i deuluoedd ganfod rhywle i fyw

Yn aml bydd teuluoedd fydd yn cael eu troi allan o dai cyngor yn cael anhawster canfod llety newydd, a gallent ddisgyn i gylch o ddigartrefedd.

Ar wahân i'r effaith negyddol ar deuluoedd, gall hefyd ychwanegu at y pwysau ar adnoddau ar gyfer taclo digartrefedd.

Mae'r swyddog tai yn chwarae rôl allweddol wrth atal digartrefedd drwy rannu gwybodaeth sy'n helpu rhieni sy'n cael anhawster talu eu rhent.

## Helpu i bobl ifanc osgoi digartrefedd

Gan weithio â Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, bydd y swyddog tai hefyd yn helpu rhai 16 ac 17 oed sy'n dweud wrthym eu bod yn ddigartref.

Ac mae gennym swydd ychwanegol yn rhan o'n Tîm Gadael Gofal, sy'n helpu i bobl ifanc sydd ar gyrion gofal godi pontydd sy'n eu galluogi i aros yn eu cartref pan fo hynny'n ddiogel.

Mae lleoli'r swyddog tai yn SPoA Plant wedi atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng y gwasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol plant, ac mae hynny'n beth cadarnhaol i blant a'u teuluoedd.

## Llwybr Cadarnhaol

Mae fframwaith Llwybr Cadarnhaol Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo cymorth i bobl ifanc ar eu taith tuag at annibyniaeth economaidd a llwyddiant drwy gyngor ac opsiynau ynghylch tai ac atal digartrefedd.

Mae hynny yn gysylltiedig â Llety Gadael Gofal a Fframwaith Cymorth Barnardos, sy'n benodol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru.

Mae Wrecsam yn ymrwymedig i ddarparu llety diogel o ansawdd uchel i bobl ifanc, ac rydym yn datblygu ymagwedd o wthio opsiynau llety yn eu blaenau.

## Helpu i bobl ifanc fod yn annibynnol

Mae gennym hefyd fynediad i Gronfa Dydd Gŵyl Dewi, sy'n grant dwy flynedd er mwyn helpu pobl ifanc 16 i 25 oed sydd yn dal mewn gofal - neu'n gadael gofal - i symud ymlaen i fod yn annibynnol.

Defnyddir y gronfa i gynorthwyo'r cohort yma o bobl ifanc mewn perthynas â'u haddysg, tai, cyflogaeth, neu iechyd a llesiant yn gyffredinol.

## Torri'r cylch digartrefedd

Rydym yn parhau i gynnal y Cynllun Cymorth i Deuluoedd - sy'n rhan o raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru.

Mae hyn yn amcanu at dorri'r cylch digartrefedd a sicrhau y gall teuluoedd aros yn eu cymunedau drwy roi cymorth tai ymatebol. Mae'r gwasanaeth yn uchel ei barch ymysg y teuluoedd sydd yn ei ddefnyddio.

> "Mae fy ngweithiwr wedi bod yn wych, cefnogol ac amyneddgar. Ni allaf ddiolch digon iddi."

*Ffurflen gadael defnyddiwr gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd - 2017.*

Mae'n ddyletswydd ar gynghorau i alluogi i bobl ifanc sydd wedi eu maethu mewn lleoliadau sefydlog aros yno nes eu bod yn 21 neu 25 oed oes ydynt mewn addysg uwch.

Enw'r cynllun yw Pan Wyf yn Barod, ac er nad oes arian ychwanegol ar ei gyfer, mae holl gynghorau Gogledd Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r cynllun.

Mae'r defnydd o'r lleoliadau yma wedi bod yn gyson a gellir rhagweld galw ar gyfer 2017-18.

## Dyma beth ydym eisiau ei wneud yn 2018-19

- Edrych ar opsiynau tai a llety 'symud ymlaen' ar gyfer rhai sy'n gadael gofal er mwyn cynorthwyo tenantiaethau sefydlog.

# 5. SUT YDYM YN DARPARU AR GYFER EIN DINASYDDION

## A. Datblygu ein gweithlu

Mae ein Tîm Datblygu Gweithlu yn parhau i ddarparu ystod eang o gyfleoedd hyfforddi i staff sy'n gweithio o fewn y Cyngor, ond hefyd ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys Darparwyr, y Trydydd Sector, Cynorthwywyr Personol a gofalwyr anffurfiol. Y rhaglen cymorth hyfforddiant ddangosol gan Lywodraeth Cymru drwy Ofal Cymdeithasol Cymru yw £441,696.

Mae hynny'n cynnwys y grant o £309,187, yn ogystal â chyfraniad cyfatebol o 30% gan y cyngor, sef £132,509.

Mae'r cyngor hefyd yn buddsoddi £303,985 gyda chyfanswm buddsoddiad o £745,681 mewn datblygu gweithlu er mwyn cefnogi'r SCWDP (mae hyn yn cynnwys incwm gan Ofal Cymdeithasol Cymru ac eraill).

Er mwyn sicrhau'r grant rydym yn cyflwyno cais lleol a chynllun rhanbarthol. Rydym hefyd yn cynhyrchu cynllun lleol ar gyfer ein partneriaeth.
http://www.wrexham.gov.uk/english/council/social_services/workforce_strategy/workforce_strategy.htm

Mae'r cyngor wedi sefydlu Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol, ac eglurir ei aelodaeth a'i swyddogaeth yn ein cynllun cyfathrebu.
http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/social_services/workforce_strategy/communication_plan.pdf

Rydym yn parhau i hyrwyddo Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru yn y sector ac yn annog defnyddio'r deunyddiau hyfforddi, canllawiau ac adnoddau sydd ar gael.
https://socialcare.wales/hub/home

Mae sesiynau cwblhau ar gyfer y modiwlau manwl yn parhau i gael eu cynnal. Mae ein holl raglenni hyfforddiant wedi cael eu diweddaru er mwyn ymgorffori negeseuon a therminoleg allweddol y Ddeddf.

Rydym wedi cynnal dwy sesiwn leol ar Ddeddf Rheoleiddio ac Archwilio (Cymru) i'r sector cyfan, a mynychodd 43 o 60 posibl.

Rydym hefyd wedi cynllunio digwyddiadau isranbarthol ar gyfer 2018.

Mae prosiect Arferion Gorau mewn Gofal Dementia gyda chartrefi gofal yn Wrecsam wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac mae nifer o gartrefi yn parhau â'r rhaglen eleni.

Mae saith o gartrefi gofal wedi cadarnhau y byddant yn hyfforddi staff ychwanegol.

Y llynedd bu i ni lwyddo i beilota 6 Cham i Wella Gofal Diwedd Oes, ac mae ail raglen nawr yn cael ei chynnal gyda pump o gartrefi gofal.

Rydym hefyd wedi helpu ein gweithwyr cymdeithasol gael mynediad i hyfforddiant a chymwysterau o dan Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus Gofal Cymdeithasol Cymru (SCW).

Mae gennym fframwaith datblygu gyrfaoedd cryf ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, yn seiliedig ar Wobrau Addysg Barhaus SCW. Rydym hefyd wedi mabwysiadu fframwaith 3 Blynedd Cyntaf o Ymarfer a gyhoeddwyd gan SCW.

Bu i SCW hefyd gynnal gweithdy ym Mhrifysgol Glyndŵr ar gyfer darparwyr ar 'arferion sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau' ym mis Tachwedd 2017.

## B. Cyllid a chynllunio ar gyfer y dyfodol

Rydym yn cael llai o arian gan Lywodraeth Cymru, felly mae ail siapio gwasanaethau cymdeithasol er mwyn wynebu'r her honno wedi bod yn flaenoriaeth.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf bu i Ofal Cymdeithasol i Oedolion arbed £6,366,216 a bu i Ofal Cymdeithasol i Blant arbed £1,318,072
Rydym wedi diweddaru ein cynlluniau ariannol ac effeithlonrwydd gwasanaeth tymor canolig, ac rydym yn parhau i ffactora pwysau yn y dyfodol i'n cynlluniau cyllid.

Mae gan y cyngor broses gyllido drylwyr sy'n gofyn i reolwyr glustnodi arbedion posibl dros gyfnod o dair blynedd.

Mae adrannau fel gwasanaethau cymdeithasol - sydd â dyletswydd gofal - yn cael cymaint o gymorth â phosibl.

Ac rydym wedi gweithredu system caffael i dalu (P2P) - wedi ei hintegreiddio i'n system ariannol - er mwyn helpu rheolwyr reoli gwariant.

Mae grant Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru yn ein helpu i ddarparu cymorth cysylltiedig â thai i bobl sy'n agored i niwed - fel y gallent fyw mor annibynnol â phosibl.

Rydym yn disgwyl y bydd y grant yma yn aros ar £4,980,685 yn ystod y flwyddyn nesaf, er iddo gael ei gwtogi 15% ers 2013-14.

Er mwyn wynebu'r heriau sylweddol yma, bu'n rhaid i ni ail siapio ac ail dendro gwasanaethau er mwyn lleihau costau. Ond rydym wedi gwneud pob ymdrech i leihau'r effaith ar bobl sy'n agored i niwed.

# C. Arweiniad, arweinyddiaeth ac atebolrwydd gwleidyddol

Ar lefel wleidyddol, mae'r cyngor yn cael cefnogaeth grŵp gweithredol o gynghorwyr - a elwir yn aelodau arweiniol - sy'n gwneud penderfyniadau allweddol.

Maent yn cael cefnogaeth pwyllgorau craffu. Daw gwasanaethau cymdeithasol o dan Bwyllgor Craffu Diogelu Cymunedau a Llesiant.

Ar lefel reoli, mae gan y cyngor brif weithredwr sy'n cael cefnogaeth dau gyfarwyddwr strategol.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o gylch gwaith y cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am 'bobl'. Mae gan y person yma hefyd rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r cynghorwyr a'r uwch reolwyr sydd â'r cyfrifoldebau arweiniol yma yn deall pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol, ac mae polisi'r cyngor yn nodi y byddwn yn blaenoriaethu gwasanaethau sy'n cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed wrth bennu cyllidebau, gwneud arbedion a newid sut ydym yn gwneud pethau.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu rheoli gan Bennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant. Mae'r ddwy adran yn cael cefnogaeth aelod arweiniol sydd yn cyfarfod yn rheolaidd â rheolwyr.

Wrth gwrs, mae gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o ddarlun llawer mwy yn Wrecsam.

Mae'r cyngor yn canolbwyntio ei waith ar dair thema strategol - economi, pobl a lle - ac mae'n hyrwyddo llesiant ar draws ei adrannau drwy ddod â swyddogion sy'n gyfrifol am bethau sy'n gynwysedig yn neddfau Gwasanaethau Cymdeithasol a Chenedlaethau'r Dyfodol at ei gilydd.

Mae'r gwaith ar genedlaethau'r dyfodol yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Wrecsam.

## Gweithio Mewn Partneriaeth

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Wrecsam (PSB) o ganlyniad i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'n amcanu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bwrdeistref Sirol Wrecsam - mewn ffordd gynaliadwy na fydd yn niweidio cenedlaethau'r dyfodol.

Er mwyn helpu i wneud hynny, mae gan PSB wahanol fyrddau sy'n gweithio ar wahanol bethau.

Blaenoriaethau drafft PSB yw:

- Bod plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd.
- Gall pawb ddysgu a datblygu drwy gydol eu bywydau.

## Trefniadau diogelu

Mae ein Polisi Diogelu Corfforaethol yn hyrwyddo mwy o ddealltwriaeth ymysg staff, cynghorwyr a phobl sy'n gweithio ar ein rhan, ynghylch y canllawiau sydd wedi eu sefydlu ar gyfer diogelu plant ac oedolion.

Datblygwyd cynllun gweithredu cysylltiedig er mwyn ein helpu i fodloni argymhellion adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru, Trefniadau Diogelu Corfforaethol Cynghorau Cymru (cyhoeddwyd ym Mehefin 2015).

Mae'r cyngor hefyd yn parhau i gydymffurfio â'r ddyletswydd 'atal' o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

Mae hynny'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau chwarae eu rhan wrth ymateb i'r her ideolegol - helpu i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth.

Felly, os ydym yn credu bod person yn wynebu risg o gael ei radicaleiddio, byddwn yn gweithio â sefydliadau eraill er mwyn asesu'r sefyllfa a datblygu cynllun cymorth ar gyfer yr unigolyn.

# 6. MWY O WYBODAETH

*Mae'r adran olaf hon yn rhestru ble y gallwch gael mwy o wybodaeth am rai o'r pethau yr ydym wedi cyfeirio atynt yn yr adroddiad hwn.*

**STRWYTHUR Y CYNGOR:**
http://www.wrexham.gov.uk/english/council/about_council.htm

**BWRDD GWASANAETH CYHOEDDUS WRECSAM:**
http://www.wrexhampsb.org

**BWRDD DIOGELU GOGLEDD CYMRU:**
*Mae'n helpu i sicrhau bod plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu gwarchod rhag camdriniaeth ac esgeulustod.*
http://www.northwalessafeguardingboard.wales/

**CYNLLUN Y CYNGOR:**
*Cynllun trosfwaol sy'n diffinio ble mae'r cyngor yn canolbwyntio ei ymdrechion.*
http://www.wrexham.gov.uk/english/council/documents/council_plan.htm

**EICH LLAIS WRECSAM:**
*Gwefan ymgynghori Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus - a ddefnyddir gan y cyngor ar gyfer arolygon ar-lein.*
http://www.yourvoicewrexham.net

**AROLYGIAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU:**
*Mae'n archwilio gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, ac yn adrodd ar eu heffeithlonrwydd.*

**ADRODDIAD CYNGOR WRECSAM:**
http://cssiw.org.uk/our-reports/local-authority-report/2015/wrexham2014-2015/?lang=en

**ADRODDIAD AR WASANAETHAU GOFAL RHEOLEIDDIEDIG YN WRECSAM:**
http://cssiw.org.uk/find-a-care-service/service-directory/?lang=en#/find-a-care-service/service-directory/?keywords=wrexham&view=Search+results&lang=en

**CWYNION A CHANMOLIAETH Y CYNGOR**
http://www.wrexham.gov.uk/complaints

**DEWIS CYMRU**
https://www.dewis.wales

**ADRODDIADAU A DOGFENNAU'R CYNGOR**
*Polisi codi tâl*
http://moderngov.wrexham.gov.uk/mgConvert2PDF.aspx?ID=6721

### ADRODDIAD MONITRO CONTRACTAU
http://moderngov.wrexham.gov.uk/mgAi.aspx?ID=4429&LLL=undefined

### ADRODDIAD DIOGELU
http://moderngov.wrexham.gov.uk/documents/s500003197/Item%207.pdf?LLL=0

### POLISI DIOGELU CORFFORAETHOL (AMDDIFFYN PLANT)
http://moderngov.wrexham.gov.uk/documents/g3006/Public%20reports%20pack%2012th-Jul-2016%20 10.00%20Executive%20Board.pdf?T=10&LLL=undefined

### ADOLYGIAD O WASANAETHAU DYDD
http://moderngov.wrexham.gov.uk/documents/g3627/Public%20reports%20pack%2013th-Dec-2016%20 10.00%20Executive%20Board.pdf?T=10&LLL=undefined

### STRATEGAETH GWEITHLU CYNGOR WRECSAM
http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/social_services/workforce_strategy/communication_plan.pdf

### CYNLLUN HYFFORDDI DATBLYGU GWEITHLU, LLAWLYFR AC ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN
http://www.wrexham.gov.uk/english/council/social_services/workforce_strategy/index.htm

### SAFONAU'R IAITH GYMRAEG
http://www.wrexham.gov.uk/english/council/documents/welsh_language_scheme.htm

### CYNLLUN HENEIDDIO'N DDA WRECSAM
https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/social_services/key_documents/aging_well_wrexham.pdf

### TUDALENNAU GWE TRAFNIDIAETH
http://www.wrexham.gov.uk/english/links/links_transport.htm#bus

### CYNLLUN TEITHIO WRECSAM - CYSYLLTU WRECSAM
https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/travel/wrexham_connected.pdf

### STRATEGAETH TAI
http://www.wrexham.gov.uk/english/council/documents/local_housing_strategy.htm

### RHAGLEN ARIANNU CEFNOGI POBL
https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/housing/supporting_people/supporting_people_directory.pdf

https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/housing/supporting_people/local_commissioning_plan.pdf

# 7. FFRAMWAITH MESUR PERFFORMIAD

*This final section lists where you can find more information about some of the things mentioned in this report.*

## SAFONAU ANSAWDD 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chynhyrchu canlniadau lles personol ar y cyd y mae pobl yn dymuno eu cyflawni

| MESURYDDION / DANGOSYDDION PERFFORMIAD | ALLDRO 2017/18 | ALLDRO 2016/17 | SYLWADAU |
|---|---|---|---|
| PMA 23 – Canran yr oedolion sydd wedi cael cefnogaeth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn | 82.33% | 59.32% | |
| PMC 24 - Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn y terfynau amser statudol | 64.9% | 85.3% | |

## SAFONAU ANSAWDD 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol

| MESURYDDION / DANGOSYDDION PERFFORMIAD | ALLDRO 2017/18 | ALLDRO 2016/17 | SYLWADAU |
|---|---|---|---|
| PMA 19 - Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn. | 3.35 | 1.72 | |
| PMA 20a – Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi a chael pecyn gofal gostyngedig a chefnogaeth 6 mis yn ddiweddarach | 38.87% | 4.41% | |
| PMA 20b - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi a heb unrhyw becyn gofal a chefnogaeth 6 mis yn ddiweddarach | 30.46% | 33.46% | |
| PMA 21 – Yr amser cyfartalog y mae pobl hŷn (65 oed neu'n hŷn) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl | 910.63 | 876.19 | |
| PMA 22 – Average age of adults entering residential care homes | 86.12 | 82.66 | |
| PMC 30 – Canran y plant a welwyd gan ddeintydd cofrestredig cyn pen 3 mis ar ôl bod mewn gofal | 59.3% | 58.14% | |
| PMC 31 – Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cofrestru â meddyg teulu | 99.1% | 99.1% | |

## SAFONAU ANSAWDD 3: Cymryd camau i amddiffyna diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

| MESURYDDION / DANGOSYDDION PERFFORMIAD | ALLDRO 2017/18 | ALLDRO 2016/17 | SYLWADAU |
|---|---|---|---|
| PMA 18 – Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | 30.25% | 29% | |
| PMC 27 – Canran yr ail gofrestriadau ar gyfer plant ar Gofrestrau Amddiffyn Plant (CAP) awdurdodau lleol. | 6.06% | 4.2% | |
| PMC 28 – Yr amser cyfartalog ar gyfer pob plentyn a oedd ar y CAP yn ystod y flwyddyn | 331.52 | 293.67 | |

## SAFONAU ANSAWDD 4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

| MESURYDDION / DANGOSYDDION PERFFORMIAD | ALLDRO 2017/18 | ALLDRO 2016/17 | SYLWADAU |
|---|---|---|---|
| PMC 29a – Canran y plant sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 | 67.5% | 63.04% | |
| PMC 29b – Canran y plant sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 4 | 2.4% | 8.77% | |
| PMC 32 - Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid ysgol un neu fwy o weithiau, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y flwyddyn Tan 31 Mawrth | 13% | 10.77% | |

## SAFONAU ANSAWDD 5: Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoed d domestig teuluol a phersonol iach

| MESURYDDION / DANGOSYDDION PERFFORMIAD | ALLDRO 2017/18 | ALLDRO 2016/17 | SYLWADAU |
|---|---|---|---|
| PMC033: Canran y plant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | 8.2% | 13.8% | |
| PMC 25 – Canran y plant a gefnogir i barhau i fyw gyda'u teuluoedd | 66.8% | 69% | |
| PMC 26 – Canran y plant mewn gofal a ddychwelodd adref ar ôl hynny yn ystod y flwyddyn | 12.2% | 11.7% | |

## SAFONAU ANSAWDD 6: Cefnogi pobl i wella eu lles economaidd, cael gwell bywyd cymdeithias ol mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion

| MESURYDDION / DANGOSYDDION PERFFORMIAD | ALLDRO 2017/18 | ALLDRO 2016/17 | SYLWADAU |
|---|---|---|---|
| PMC 34a – Canran yr holl bobl sy'n gadael gofal ac sydd mewn addysg, hyfforddiant neu swydd 12 mis ar ôl gadael gofal | 58.8% | 50% | |
| PMC 34b – Canran yr holl bobl sy'n gadael gofal ac sydd mewn addysg, hyfforddiant neu swydd 24 mis ar ôl gadael gofal | 46.2% | 70% | |
| PMC 35 – The percentage of care leavers who have experienced homelessness during the year | 19.4% | 23.2% | |

# 8. ATODIADAU

*Ymatebion i'r Arolwg Dinesyddol ar gyfer Oedolion a Gofalwyr a Phlant a Rhieni*

## ATODIAD A: Ymatebion Arolwg Dinsyddion Oedolion

Anfonwyd holiaduron oedolion at sampl o oedolion a oedd yn derbyn gofal a chymorth ar 1 Medi 2017:

| Cwestiwn | Cytuno | Weithiau | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| 1. Rwy'n byw mewn cartref sy'n cefnogi fy lles yn y ffordd orau | 71% | 9% | 6% | 14% |
| 2. Rwy'n gallu gwneud pethau sy'n bwysig i mi | 32% | 29% | 7% | 32% |
| 3. Rwy'n teimlo fy mod yn rhan o fy nghymuned | 14% | 17% | 8% | 61% |
| 4. Rwy'n hapus â'r gefnogaeth gan fy nheulu, ffrindiau a chymdogion | 78% | 10% | 5% | 7% |
| 5. Rwy'n teimlo'n ddiogel | 66% | 17% | 8% | 9% |
| 6. Rwy'n gwybod pwy i gysylltu â nhw ynglŷn â fy ngofal a fy nghefnogaeth | 64% | 11% | 9% | 16% |
| 7. Rwyf wedi cael y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan fydd ei angen arnaf | 58% | 21% | 6% | 15% |
| 8. Rwyf wedi cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau ynglŷn â sut y cafodd fy ngofal a fy nghymorth ei ddarparu | 65% | 10% | 8% | 17% |
| 9. Roeddwn yn gallu cyfathrebu yn fy iaith ddewisedig. | 85% | 3% | 3% | 9% |
| 10. Cefais fy nhrin ag urddas a pharch | 79% | 6% | 1% | 7% |
| 11. Rwy'n hapus â'r gofal a'r cymorth a gefais | 73% | 15% | 4% | 23% |
| 12. Fy newis i oedd byw mewn cartref gofal preswyl (Atebwyd gan atebwyr a oedd yn byw mewn cartref gofal preswyl yn unig). | 31% | 0% | 46% | 23% |
| 13. Rwyf wedi cael cyngor, help a chefnogaeth a fydd yn fy mharatoi ar gyfer bod yn oedolyn (Atebwyd gan ymatebwyr 18 oed neu 24 oed). | 100% | 0% | 0% | 0% |

## Ymatebion i Arolwg Oedolion sy'n Gofalu

Anfonwyd holiaduron oedolion at sampl o oedolion a oedd yn ofalwyr ar 1 Medi 2017:

| Cwestiwn | Cytuno | Sometimes | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| 1. Rwy'n byw mewn cartref sy'n cefnogi fy lles yn y ffordd orau | 67% | 12% | 5% | 16% |
| 2. Rwy'n gallu gwneud pethau sy'n bwysig i mi | 43% | 37% | 8% | 12% |
| 3. Rwy'n teimlo fy mod yn rhan o fy nghymuned | 39% | 30% | 16% | 15% |
| 4. Rwy'n hapus â'r gefnogaeth gan fy nheulu, ffrindiau a chymdogion | 62% | 20% | 5% | 12% |
| 5. Rwy'n teimlo'n ddiogel | 67% | 13% | 8% | 12% |
| 6. Rwy'n gwybod pwy i gysylltu â nhw ynglŷn â fy ngofal a fy nghefnogaeth | 46% | 19% | 17% | 18% |
| 7. Rwyf wedi cael y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan fydd ei angen arnaf | 45% | 25% | 12% | 19% |
| 8. Rwyf wedi cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau ynglŷn â sut y cafodd fy nghefnogaeth ei ddarparu | 81% | 7% | 2% | 10% |
| 9. Rwyf wedi bod yn gysylltiedig â phob penderfyniad ynglŷn â sut y darpar wyd y gofal a'r gefnogaeth i'r person yr wyf yn gofalu amdano/amdani | 63% | 14% | 11% | 12% |
| 10. Roeddwn yn gallu cyfathrebu yn fy iaith ddewisedig | 91% | 3% | 1% | 5% |
| 11. Cefais fy nhrin ag urddas a pharch | 79% | 10% | 1% | 10% |
| 12. Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi i barhau â fy rôl ofalgar | 56% | 20% | 9% | 14% |
| 13. Rwy'n hapus â'r gofal a'r cymorth a gefais | 52% | 20% | 12% | 17% |
| 14. Rwyf wedi cael cyngor, help a chefnogaeth a fydd yn fy mharatoi ar gyfer bod yn oedolyn (Atebwyd gan ymatebwyr 18 oed neu 24 oed). | 29% | 26% | 7% | 29% |

## Children's and Parents Citizen Survey Responses

Anfonwyd holiaduron i'r holl blant / pobl ifanc oedd yn derbyn gofal a chymorth oedd yn 7 i 17 oed ar 1 Medi 2017.

| Cwestiwn | Canran o'r Ymatebion | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Weithiau | Na | Ddim yn gwybod' |
| 1. Rwyf yn byw mewn cartref ble rwyf yn hapus | 82% | 13% | 4% | 1% |
| 2. Rwyf yn hapus gyda'r bobl yr wyfyn byw gyda nhw | 78% | 17% | 3% | 3% |
| 3. Gallaf wneud pethau rwy'n hoffi eu gwneud | 71% | 22% | 6% | 1% |
| 4. Rwy'n teimlo fy mod yn perthyn i'r ardal yr wyf yn byw ynddi | 78% | 14% | 4% | 4% |
| 5. Rwyf yn hapus gyda fy nheulu, ffrindiau a chymdogion | 86% | 10% | 0% | 4% |
| 6. Rwy'n teimlo'n ddiogel | 88% | 8% | 1% | 3% |
| 7. Rwy'n gwybod gyda phwy i siarad am fy ngofal a chymorth | 82% | 13% | 0% | 6% |
| 8. Rwyf wedi cael y wybodaeth a'r cyngor cywir pan oeddwn ei angen | 68% | 15% | 6% | 11% |
| 9. Gwrandawyd ar fy safbwyntiau am fy ngofal a chymorth | 65% | 17% | 7% | 11% |
| 10. Rwyf wedi gallu defnyddio fy iaith bob dydd | 92% | 1% | 1% | 6% |
| 11. Cefais fy nhrin gyda pharch | 85% | 10% | 3% | 3% |
| 12. Rwyf yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth yr wyf wedi ei gael | 81% | 8% | 7% | 4% |
| 13. Rwyf wedi cael cyngor, help a chymorth fydd yn fy mharatoi ar gyfer bod yn oedolyn (16 neu 17 oed yn unig) | 30% | 10% | 20% | 40% |

Anfonwyd holiaduron i rieni yr holl blant / pobl ifanc oedd yn derbyn gofal a chymorth oedd yn 7 i 17 oed ar 1 Medi 2017.

| Cwestiwn | Canran o'r Ymatebion | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Weithiau | Na | Ddim yn gwybod' |
| 1. Rwyf wedi cyfrannu at bob penderfyniad ynghylch sut y darparwyd gofal a chymorth i fy mhlentyn/plant | 68% | 13% | 18% | 0% |
| 2. Rwyf yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnaf ac fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi | 43% | 37% | 8% | 12% |
| 3. A oes yna unrhyw beth y gallwn ei wella ac wedi gallu ei wneud yn well? | 47% | 18% | 24% | 11% |